



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 14 Chwefror 2007  
Wednesday, 14 February 2007**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport
- 41 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ  
Questions to the House Committee
- 41 Cymeradwyo Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007  
Approval of the Agricultural Wages Committee (Wales) Order 2007
- 43 Cymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007, a Rheoliadau  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007  
Approval of the Commissioner for Older People in Wales (Appointment) Regulations  
2007, and the Commissioner for Older People in Wales Regulations 2007
- 55 Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007, a  
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a  
Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007  
Approval of the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations  
2007, and the Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions And  
Responsibilities) (Wales) Regulations 2007
- 62 Cymeradwyo'r Adventure Activities (Licensing) (Designation) Order 2007 a'r  
Adventure Activities Licensing (Amendment) Regulations 2007 o dan Reol Sefydlog  
Rhif 25 Adran 3  
Approval of the Adventure Activities (Licensing) (Designation) Order 2007 and the  
Adventure Activities Licensing (Amendment) Regulations 2007 under Standing Order  
No. 25 Section 3
- 68 Dirprwyo Swyddogaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 i'r Prif  
Weinidog  
Delegation of Functions under the Disability Discrimination Act 1995 to the First  
Minister
- 69 Cymeradwyo'r Disability Discrimination (Public Authorities) (Statutory Duties)  
(Amendment) Regulations 2007 Approval of the Disability Discrimination (Public  
Authorities) (Statutory Duties) (Amendment) Regulations 2007
- 70 Cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig ar Gronfa  
Datblygu Rheoli Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2007  
Approval of the Local Government Finance (Wales) Special Grant Report for Social  
Services Performance Management Development Fund (Wales) 2007
- 71 Dirprwyo Swyddogaethau o dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 a Deddf  
Cyfrifiad 1920 i'r Prif Weinidog  
Delegation of Functions under the Environmental Protection Act 1990 and the Census  
Act 1920 to the First Minister
- 72 Dirprwyo Swyddogaethau o dan Reoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru) 2006 i'r Prif Weinidog

Delegation of Functions under the Structural Funds (National Assembly for Wales)  
Regulations 2006 to the First Minister

- 73 Dadl Fer: Dyfodol i Dansco  
Short Debate: A Future for Dansco Dairy Products

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

### **Rhieni sydd mewn Galar Bereaved Parents**

**C1 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i rieni sydd mewn galar? OAQ1258(HSS)

**Q1 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for bereaved parents? OAQ1258(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** In December 2006 I visited north Wales mental health service, Unlais, in Bangor to discuss progress in the delivery of mental health services. A service and financial framework target requires all GP practices to have access to psychological services by 31 March 2007.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Ym mis Rhagfyr 2006 ymwelais â gwasanaeth iechyd meddwl y gogledd, Unlais, ym Mangor i drafod y cynnydd a wnaed i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl. Mae targed ar gyfer fframwaith gwasanaeth a chyllid yn ei gwneud yn ofynnol i bob practis meddyg teulu all troi at wasanaethau seicolegol erbyn 31 Mawrth 2007.

**Alun Ffred Jones:** That was not the answer that I expected. My supplementary question refers specifically to parents of stillborn children, or those who die soon after birth. They face a long delay before they receive post mortem results; one couple from Pwllheli, in my constituency, had to wait 16 weeks. You can imagine the deep trauma that they suffered while waiting for that report. Do you not agree that having to wait that long to receive a report is intolerable? What can you do to ensure that this is given a higher priority by the laboratory?

**Alun Ffred Jones:** Nid dyna oedd yr ateb a ddisgwylwn. Mae fy nghwestiwn atodol yn cyfeirio'n benodol at rieni plant marw-anedig, neu blant sy'n marw'n fuan ar ôl eu geni. Maent yn wynebu oedi hir cyn cael canlyniadau post-mortem; yr oedd yn rhaid i un pâr o Bwllheli yn fy etholaeth i aros am 16 wythnos. Gallwch ddychmygu'r trawma difrifol a ddiodefodd y ddau wrth aros am yr adroddiad hwnnw. Oni chytunwch fod gorfod aros cyhyd i gael adroddiad yn annioddefol? Beth allwch ei wneud i sicrhau bod hyn yn cael blaenoriaeth uwch gan y labordy?

**Brian Gibbons:** The University Hospital of Wales's paediatric pathology department realises that a wait of 14 weeks is not acceptable. Its own target is for this work to be carried out in six weeks, with an outside limit of 12 weeks, although I think that even 12 weeks is a long time for people to have to wait under the circumstances that you described. However, the reason for that is the importance of having specialist paediatric pathologists undertake these investigations—that has been highlighted in many recommendations. This has been a recurrent message for us. It is recognised at UHW that

**Brian Gibbons:** Mae adran patholeg bediatrig Ysbyty Athrofaol Cymru yn sylweddoli nad yw gorfod aros am 14 wythnos yn dderbiniol. Targed yr ysbyty ei hun yw gwneud y gwaith hwn ymhén chwe wythnos, gyda therfyn o ddim mwy na 12 wythnos, er fy mod yn credu bod 12 wythnos yn amser hir i bobl aros o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd gennyh. Fodd bynnag, y rheswm am hynny yw pwysigrwydd cael patholegwyr pediatrig arbenigol i wneud yr ymchwiliadau hyn—tynnwyd sylw at hynny mewn nifer o argymhellion. Clywsom y neges hon droeon.

this has to be improved, and I understand that discussions are ongoing between the hospital, the paediatric pathologists and their commissioners to see whether or not there is a way forward to shorten the waiting time.

Yn Ysbyty Athrofaol Cymru, cydnabyddir bod yn rhaid gwella hyn, a deallaf fod trafodaethau'n digwydd rhwng yr ysbyty, y patholegwyr pediatrig a'u comisiynwyr i weld a oes ffordd ymlaen i leihau'r amser aros.

### Triniaeth Cancer Cancer Treatment

**Q2 Peter Black:** Will the Minister make a statement on waiting times for cancer treatment in the South Wales West region? OAQ1249(HSS)

**C2 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros am driniaeth cancer yn rhanbarth Gorllewin De Cymru? OAQ1249(HSS)

**Brian Gibbons:** We have set targets for delivery by 31 December. Achievement of these targets will be measured against the period January to March 2007, the data for which will be published in June.

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi gosod targedau i'w cyflawni erbyn 31 Rhagfyr. Caiff cyflawni'r targedau hyn ei fesur yn ôl y cyfnod o fis Ionawr i fis Mawrth 2007, a chyhoeddir y data am y cyfnod hwnnw ym mis Mehefin.

**Peter Black:** Patients waiting for prostate cancer treatment will be looking forward to the availability of brachytherapy later this year. However, do you not accept, given that it is already available in some parts of England, that brachytherapy should be available much earlier than that? Is it not possible to provide this treatment at an earlier date, particularly for patients in my region of South Wales West?

**Peter Black:** Bydd cleifion sy'n aros am driniaeth cancer y brostad yn edrych ymlaen at allu cael brachytherapi yn ddiweddarach eleni. Fodd bynnag, onid ydych yn derbyn, gan ei fod eisoes ar gael mewn rhai rhannau o Loegr, y dylai brachytherapi fod ar gael lawer yn gynharach na hynny? Onid yw'n bosibl darparu'r driniaeth hon ynghynt, yn arbennig i gleifion yn fy rhanbarth i yng Gorllewin De Cymru?

**Brian Gibbons:** As you say, brachytherapy is available in some parts of England but not in others. In Wales, we have thoroughly discussed the circumstances that are responsible for us being in this situation. Health Commission Wales has given a commitment that, in principle, it will commission a service, and we are anxious that necessary discussions take place with Velindre Hospital so that, hopefully, by the early summer of this year, we will have a Wales-based brachytherapy service.

**Brian Gibbons:** Fel y dywedwch, mae brachytherapi ar gael mewn rhai rhannau o Loegr, ond nid ym mhob rhan. Yng Nghymru, yr ydym wedi trafod yn drylwyr yr amgylchiadau sy'n gyfrifol am y sefyllfa hon. Mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi rhoi ymrwymiad y bydd, mewn egwyddor, yn comisiynu gwasanaeth, ac yr ydym yn awyddus i'r trafodaethau angenrheidiol ddigwydd gydag Ysbyty Felindre er mwyn sicrhau, gobeithio, y bydd gennym wasanaeth brachytherapi yng Nghymru erbyn dechrau'r haf eleni.

**David Lloyd:** Minister, what are you doing to increase the number of consultant oncologists in Swansea?

**David Lloyd:** Weinidog, beth yr ydych yn ei wneud i gynyddu nifer yr oncolegwyr ymgynghorol yn Abertawe?

**Brian Gibbons:** The number of oncologists is determined by the assessment of services undertaken by local trusts and local commissioners, and the number required to

**Brian Gibbons:** Caiff nifer yr oncolegwyr ei bennu gan yr asesiad o wasanaethau gan ymddiriedolaethau lleol a chomisiynwyr lleol, a'r nifer y mae eu hangen i gyflawni ein

deliver our waiting-times target. As I said to Peter, we are looking at how Swansea is delivering in terms of waiting-times targets, but the investment that we are putting into the MRI scanner at Swansea, the Institute of Life Science at Swansea, the development of the cancer research framework and the Swansea clinical school will make south Wales a very attractive place for oncologists to work. Hopefully, those developments will result in Swansea becoming a major regional centre for cancer therapy in south-west Wales.

**Alun Cairns:** Minister, your statement on brachytherapy yesterday was welcome, although we need absolute clarity on the situation of those people who need brachytherapy before August, or whenever it is that it will become available at Velindre Hospital. However, allied to brachytherapy is cryotherapy, another form of treatment for prostate cancer. One of my constituents has a window of two months in which cryotherapy could save his life, but Health Commission Wales has rejected that treatment in this instance. Given your movement on brachytherapy provision, can we assume that the same principle applies to cryotherapy? We have a two-month window of opportunity in which to save this man's life. He has tried all other forms of treatment and they have been ineffective.

**Brian Gibbons:** It is important that we realise that a number of these treatments are of equal efficacy and appropriateness, and have an equal side-effect profile. For example, the choice is rarely between having brachytherapy or no treatment at all. Cryotherapy is a specific type of sub-group treatment, and is certainly not one of the mainstream treatment regimes for prostate cancer. Therefore, if there is a specific indication in favour of it in this instance, it will need to be referred to the individual assessment panel, as is always the case with Health Commission Wales, to evaluate why this therapy is the only treatment appropriate for this individual. If you want to write to me on that issue, I would be happy to look into it.

targed o ran amseroedd aros. Fel y dywedais wrth Peter, yr ydym yn edrych ar yn ffordd mae Abertawe'n llwyddo o ran targedau amseroedd aros. Ond mae ein buddsoddiad yn y sganiwr MRI yn Abertawe, y Sefydliad Gwyddor Bywyd yn Abertawe, datblygu'r fframwaith ymchwil cancer ac ysgol glinigol Abertawe yn gwneud de Cymru yn lle deniadol iawn i oncolegwyr weithio. Gobeithio y bydd y datblygiadau hynny'n golygu y bydd Abertawe'n dod yn ganolfan ranbarthol bwysig ar gyfer therapi cancer yn y de-orllewin.

**Alun Cairns:** Weinidog, croesawyd eich datganiad ar frachytherapi ddoe, er bod angen inni fod yn gwbl glir ynglŷn â sefyllfa'r bobl hynny y mae angen brachytherapi arnynt cyn mis Awst, neu pryd bynnag y bydd ar gael yn Ysbyty Felindre. Fodd bynnag, mae cryotherapi, math arall o driniaeth ar gyfer cancer y brostad, yn gysylltiedig â brachytherapi. Mae gan un o'm hetholwyr ddeufis pan allai cryotherapi achub ei fywyd, ond mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi gwrthod y driniaeth honno yn yr achos hwn. O ystyried eich symudiad ar ddarparu brachytherapi, a allwn dybio bod yr un egwyddor yn gymwys i gryotherapi? Mae gennym ddeufis i achub bywyd y dyn hwn. Mae wedi rhoi cynnig ar bob math arall o driniaeth, a hynny'n aneffeithiol.

**Brian Gibbons:** Mae'n bwysig inni sylweddoli bod nifer o'r triniaethau hyn yr un mor effeithiol a phriodol, a bod iddynt yr un sgil-effeithiau. Er enghraifft, anaml y bydd dewis rhwng cael brachytherapi neu ddim triniaeth o gwbl. Mae cryotherapi yn fath penodol o driniaeth is-grŵp, ac yn sicr nid yw'n un o'r systemau triniaeth prif ffrwd ar gyfer cancer y brostad. Felly, os oes rheswm penodol dros gael y driniaeth yn yr achos hwn, bydd angen ei gyfeirio at y panel asesu unigol, fel sydd bob amser yn digwydd gyda Chomisiwn Iechyd Cymru, er mwyn iddo bwysu a mesur pam mai'r therapi hwn yw'r unig driniaeth briodol ar gyfer yr unigolyn hwn. Os hoffech ysgrifennu ataf am y mater hwnnw, byddwn yn fwy na pharod i ymchwilio iddo.

**Mynediad at Gwasanaethau'r GIG  
Access to NHS Services**

**C3 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella mynediad at wasanaethau'r GIG? OAQ1262(HSS)

**Brian Gibbons:** Access to NHS services is improving, as demonstrated in our successful drive towards achieving our 26-week target in 2009, and 'Designed for Life' is intended to build on and consolidate this progress. Local facilities and care pathways are being reviewed against these standards and strategies.

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf am fynd yn ôl at y pwynt a godwyd am brachytherapi. Mae dau o'm hetholwyr, Mr Huws o Lanengan a Mr Grant o Nefyn, wedi cael cyngor gan eu doctor mai dyna'r math o driniaeth fyddai orau iddynt. Hoffwn gael eglurder ynglŷn â'ch datganiad ysgrifenedig ddoe, pan wnaethoch sôn y byddech yn ystyried y sefyllfa hon.

'In the meantime, no patient will be without treatment'.

'Health Commission Wales will review, individually, those patients whose need for treatment occurs before the Velindre service is available and commission accordingly.'

Dyna a ddywedwyd gennych am y bobl hynny sy'n disgwyl ar hyn o bryd am y driniaeth hon. Mae un ohonynt, Mr Huws, eisoes wedi penderfynu y bydd yn rhaid iddo fynd i Ysbyty Glan Clwyd am y driniaeth gonfensiynol. Golyga hynny 20 taith o awr a hanner iddo, sef tair awr bob dydd, wrth gwrs. Felly, a fydd y cleifion hynny yn cael eu hystyried gan Gomisiwn Iechyd Cymru, a phryd fydd hynny'n digwydd?

**Brian Gibbons:** Health Commission Wales has made it clear that if people have been advised by their clinician that the only treatment appropriate for them is brachytherapy, those individuals will have their case assessed. However, if a consultant explains that brachytherapy is only one of a

**Q3 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's effectiveness in improving access to NHS services? OAQ1262(HSS)

**Brian Gibbons:** Mae gallu cael gwasanaethau'r GIG yn gwella, fel y dangosir yn ein hymdrech lwyddiannus i gyrraedd ein targed o 26 wythnos yn 2009, a nod 'Cynllun Oes' yw adeiladu ar y cynnydd hwn a'i atgyfnerthu. Mae cyfleusterau lleol a llwybrau gofal yn cael eu hadolygu yn erbyn y safonau a'r strategaethau hyn.

**Alun Ffred Jones:** I wish to return to the point was raised about brachytherapy. Two of my constituents, Mr Huws from Llanengan and Mr Grant from Nefyn, have been advised by their doctor that that would be the best treatment for them. I should like some clarity about your written statement yesterday, when you stated that you would consider this situation.

Yn y cyfamser, ni fydd yr un claf mewn sefyllfa lle nad yw'n cael triniaeth.

Bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn adolygu, yn unigol, yr holl gleifion hynny y mae angen y driniaeth arnynt cyn y bydd y gwasanaeth ar gael yn Felindre, a bydd yn comisiynu'n unol â hynny.

That is what you said about those people waiting for this treatment now. One of them, Mr Huws, has already decided that he will have to go to Ysbyty Glan Clwyd to receive conventional treatment. That will mean 20 journeys of an hour and a half, which is three hours a day, of course. Therefore, will those patients be given consideration by Health Commission Wales, and when will that happen?

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi egluro, os yw pobl wedi'u cynghori gan eu clinigydd mai'r unig driniaeth sy'n briodol iddynt yw brachytherapi, y bydd achos yr unigolion hynny'n cael ei asesu. Fodd bynnag, os bydd meddyg ymgynghorol yn esbonio mai un yn

range of treatments available, such as surgery or wide-beam therapy, Health Commission Wales intends to commission that service from April. However, the current situation, which has been fairly well rehearsed in the Chamber, still prevails: if your patient has been advised that this is the only suitable treatment rather than one of a range of suitable treatments, he or she should make an individual approach to Health Commission Wales.

**Lynne Neagle:** The progress to which you referred earlier is to be welcomed, but is of little comfort to a young constituent of mine who has just contacted me. Aged 15, she has been told that her teeth require a specialist brace to resolve severe misalignment. However, given the way in which orthodontic treatment is funded, she faces a two-year wait for treatment.

2.10 p.m.

In the meantime, this young girl is faced with being called names by some of her peers and a slow deterioration in her self-esteem. Will you look into waiting times for orthodontic treatment as a matter of urgency? As my constituent has stated, if this was a wait for an operation, it would be deemed unacceptable.

**Brian Gibbons:** Without knowing the specific details, it is not possible to give an answer, but people who require major orthodontic treatment, particularly at the secondary care level, are covered by the waiting-time guarantee, just like anybody else. The amount of money available for orthodontics has continued at the same level as before the new dental contract was introduced, and the level of investment was based on the level of work being undertaken at that juncture. We need to get the specific details of this young girl, because if it is hospital treatment that she requires, she would be covered by the hospital waiting-time guarantee.

**Helen Mary Jones:** Minister, you will be aware of the concerns of constituents in Llanelli about access to emergency surgery services and we look forward to your

unig o amrywiol driniaethau sydd ar gael yw brachytherapi, megis llawdriniaeth, neu therapi pelydr llydan, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn bwriadu comisiynu'r gwasanaeth hwnnw o fis Ebrill. Fodd bynnag, erys y sefyllfa bresennol, sydd wedi'i thrafod droeon yn y Siambr: os cynghorwyd eich claf mai hon yw'r unig driniaeth addas yn hytrach nag un o nifer o driniaethau addas, dylai gysylltu â Chomisiwn Iechyd Cymru yn unigol.

**Lynne Neagle:** Dylid croesawu'r cynnydd y cyfeirich ato'n gynharach, ond nid yw fawr o gysur i un o'm hetholwyr ifanc sydd newydd gysylltu â mi. Mae'n 15 oed, a dywedwyd wrthi fod angen ffrâm ddannedd arbenigol arni i gywiro'u dannedd cam. Fodd bynnag, o gofio'r ffordd y caiff triniaeth orthodontig ei hariannu, mae'n wynebu gorfod aros am ddwy flynedd i gael triniaeth.

Yn y cyfamser, mae'r ferch ifanc hon yn gorfod dioddef clywed ei chyfoedion yn galw enwau arni, ac mae'n colli ei hunanhyder yn raddol. A edrychwch ar fyrder ar amseroedd aros ar gyfer triniaeth orthodontig? Fel y dywedodd fy etholwraig, pe bai hyn yn amser aros am lawdriniaeth, byddai'n annerbyniol.

**Brian Gibbons:** Heb wybod y ffeithiau penodol, nid yw'n bosibl rhoi ateb, ond mae pobl sydd ag angen triniaeth orthodontig fawr, yn arbennig ym maes gofal eilaidd, yn cael eu cynnwys gan y gwarant amser aros, fel unrhyw un arall. Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer orthodonteg yn dal ar yr un lefel ag ydoedd cyn cyflwyno'r contract deintyddol newydd, ac yr oedd lefel y buddsoddiad yn seiliedig ar lefel y gwaith a wneid bryd hynny. Mae angen inni gael manylion penodol y ferch ifanc hon, oherwydd os triniaeth yn yr ysbyty y mae arni ei hangen, byddai'n cael ei chynnwys gan warant amser aros yr ysbyty.

**Helen Mary Jones:** Weinidog, fe wyddoch am bryderon etholwyr yn Llanelli ynghylch gallu cael gwasanaethau llawdriniaeth frys, ac yn sgil y ddadl yr wythnos diwethaf



publishing, following the debate last week, the terms of reference of that inquiry and to the appointing of the independent person. In your response to that debate, you said that your officials were in contact with the trust to see whether it was possible to restore the service in the meantime. Will you report today on the progress that you have made with the trust with regard to restoring the service while this inquiry takes place?

**Brian Gibbons:** The trust contacted the outgoing surgeon at Llanelli to clarify whether there was a basis on which it could be agreed that he would come back to work and fill the gap to allow that service to continue. However, for a number of reasons, it was not possible to reach such an agreement. Consequently, and for the reasons that the trust gave, there is not the level of cover there at present to enable the service to meet basic safety standards.

**Helen Mary Jones:** You will be aware of the history between that individual surgeon and the trust and you will not be surprised that he did not choose to go back into its employ. I want to widen the point. The debate last week was about the whole reconfiguration process, not just about the situation in Llanelli. I quote comments that you made in the *New Statesman* on 29 January 2007, in talking about the reconfiguration process. You said that it has been a massive challenge and so on, which is true, and go on to say,

‘I think the necessity in Wales is probably more acute than in other parts of the UK because we do not have the generous Barnett Formula of Scotland, for example, but our health and social care and illness needs are so much greater than those in England.’

Can we take this as a shift in your Government’s position towards the point that we on these benches have been advocating from the beginning, namely the need for a needs-based formula to allocate resources to Wales? I cannot believe, Minister, that you would say one thing to the *New Statesman* and another to the Chamber.

**Brian Gibbons:** The comment was stating

edrychwn ymlaen at eich gweld yn cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwnnw a phenodi’r unigolyn annibynnol. Yn eich ymateb i’r ddadl honno, dywedasoed fod eich swyddogion yn cael trafodaethau gyda’r ymddiriedolaeth i weld a oedd yn bosibl adfer y gwasanaeth yn y cyfamser. A rowch chi adroddiad heddiw am y cynnydd a wnaed gennych gyda’r ymddiriedolaeth o ran adfer y gwasanaeth tra mae’r ymchwiliad hwn yn mynd rhagddo?

**Brian Gibbons:** Cysylltodd yr ymddiriedolaeth â’r llawfeddyg sy’n gadael Llanelli i ofyn a oedd modd dod i gytundeb lle y byddai’n dychwelyd i’r gwaith a llenwi’r bwlch i alluogi’r gwasanaeth hwnnw i barhau. Fodd bynnag, am nifer o resymau, nid oedd yn bosibl dod i gytundeb felly. O ganlyniad, ac am y rhesymau a roddwyd gan yr ymddiriedolaeth, nid oes digon o staff yno ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd safonau diogelwch sylfaenol.

**Helen Mary Jones:** Fe wyddoch am yr hanes rhwng y llawfeddyg unigol hwnnw a’r ymddiriedolaeth, ac ni fyddwch yn synnu na ddewisodd dychwelyd yno. Hoffwn ymhelaethu ar y pwynt. Yr oedd a wnelo’r ddadl yr wythnos diwethaf â’r holl broses ail-gyflunio, nid y sefyllfa yn Llanelli’n unig. Dyfynnaf sylwadau a wnaethoch yn y *New Statesman* ar 29 Ionawr 2007, wrth siarad am y broses ail-gyflunio. Soniech iddi fod yn her enfawr, ac ati, sy’n wir, ac ewch ymlaen i ddweud,

Credaf fod yr angen yng Nghymru efallai’n fwy difrifol nag mewn rhannau eraill o’r DU oherwydd nid yw oes gennych y Fformiwla Barnett hael iawn sydd yr Alban, er enghraifft, ond mae ein hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol a salwch gymaint yn fwy nag ydynt yn Lloegr.’

A allwn gymryd bod hyn yn newid yn safbwynt eich Llywodraeth at y pwynt yr ydym ni ar y meinciau hyn wedi bod yn ei hyrwyddo o’r cychwyn, sef yr angen am fformiwla’n seiliedig ar anghenion i ddyrannu adnoddau i Gymru? Ni allaf gredu, Weinidog, y byddech yn dweud un peth wrth y *New Statesman* a pheth arall wrth y Siambr.

**Brian Gibbons:** Yr oedd y sylw’n dweud,

that, because of the historical basis of calculating the formula for resource allocation to the various devolved administrations, it is an empirical fact that the allocation to Scotland is considerably higher than that to Wales. For those historical reasons, Scotland has much greater financial flexibility compared to Wales. That was a description of the empirical situation in which we find ourselves. I do not have the figures in my head, but Scotland probably has 7 to 10 per cent more resource than Wales. Therefore, clearly, the urgency that we face in Wales in terms of reconfiguring the services does not exist there, because of that independent, empirical fact. You are taking two or three further extrapolations from that obvious observation to a certain conclusion that it is not my job, as Minister for Health and Social Services, to push.

**Jonathan Morgan:** Returning to the issue of brachytherapy, in your statement yesterday you said that this service would be provided at Velindre Hospital no later than the end of the summer. I have been contacted in the past few hours by people who have experience in this field, people who have experience in this field, and it is felt that it might not happen until some time in the autumn. Can you give the Assembly a guarantee that you will stick to your promise that the service will be provided no later than the end of the summer?

**Brian Gibbons:** The summer deadline was given to us on the basis of consultation with Velindre trust. That is what it indicates is the best time. Indeed, from the discussions that I have had with officials and representatives of Velindre NHS Trust, that seemed to be a reasonable timescale. However, the timescale must be in the hands of the clinicians and other support staff in Velindre. I would not regard it as appropriate for me to require a deadline to be met if that meant that the service did not meet safety and quality criteria adequately.

**Jonathan Morgan:** That is very interesting, Minister, because I am not asking Velindre that question, but you. In your statement, you said that the service should be provided by the end of the summer at Velindre. Therefore, what steps are you taking to ensure that it

oherwydd y sail hanesyddol ar gyfer cyfrifo'r fformiwla ar gyfer dyrannu adnoddau i'r amrywiol weinyddiaethau datganoledig, ei bod yn ffaith empirig fod y dyraniad i'r Alban yn sylweddol uwch na'r dyraniad i Gymru. Am y rhesymau hanesyddol hynny, mae gan yr Alban lawer mwy o hyblygrwydd ariannol o'i chymharu â Chymru. Yr oedd hynny'n ddisgrifiad o'r sefyllfa empirig sydd ohoni. Ni chofiaf y ffigurau, ond mae'n debyg fod gan yr Alban 7 i 10 y cant yn fwy o adnoddau na Chymru. Felly, yn amlwg, nid yw'r brys a wynebwn yng Nghymru i ailgyflunio'r gwasanaethau yn bodoli yno, oherwydd y ffaith empirig, annibynnol honno. Yr ydych yn llunio dau neu dri chasgliad pellach o'r sylw amlwg hwnnw a dod i gasgliad penodol nad fy lle i, fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yw ei hyrwyddo.

**Jonathan Morgan:** I ddychwelyd at brachytherapi, yn eich datganiad ddoe yr oeddech yn dweud y byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Felindre erbyn diwedd yr haf fan pellaf. Yn ystod yr oriau diwethaf, mae pobl sydd â phrofiad yn y maes hwn wedi cysylltu â mi, a theimlir na fydd hyn yn digwydd, hwyrach, tan yr hydref. A allwch roi sicrwydd i'r Cynulliad y byddwch yn cadw'ch addewid y caiff y gwasanaeth ei ddarparu erbyn diwedd yr haf fan pellaf?

**Brian Gibbons:** Cawsom y dyddiad yn yr haf inni ar sail ymgynghori ag ymddiriedolaeth Felindre. Dyna'r amser gorau yn ôl yr ymgynghoriad. Yn wir, o'r trafodaethau a gefais gyda swyddogion a chynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Felindre, mae'n ymddangos fod yr amserlen yn rhesymol. Fodd bynnag, clinigwyr a staff cymorth arall Felindre sy'n pennu'r amserlen. Ni fyddwn yn ei ystyried yn briodol imi bennu amserlen pe bai hynny'n golygu na fyddai'r gwasanaeth yn bodloni meini prawf diogelwch a safon yn ddigonol.

**Jonathan Morgan:** Mae hynny'n ddiddorol iawn, Weinidog, oherwydd nid i Felindre yr wyf yn gofyn y cwestiwn hwnnw, ond i chi. Yn eich datganiad dywedech dylid darparu'r gwasanaeth erbyn diwedd yr haf yn Felindre. Felly, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i

will be provided there by the end of the summer, not well into the autumn, which is the concern that was expressed to me earlier today? What assessment of costs have you made, and what money will be provided to Health Commission Wales to cover the cost of providing the service? The reason given for not accessing the service in England last year was rising costs, so if you cannot guarantee that the service will be provided by the end of the summer, can you at least guarantee that you will put sufficient resources into Health Commission Wales's budget to cover the costs of providing this vital treatment?

**Brian Gibbons:** The timescale has been based on discussions with Velindre. If you are saying that your source for the evidence that you have just outlined is the same source as gave us the basis for reaching an agreement that this service should be put in place by the summer, then, clearly, the message being sent out is inconsistent. However, our understanding, based on discussions with Velindre as to when this service can be put in place with the resources that Velindre has and that we are offering, is that this service will be in place by late summer. That is its judgment and the assessment that it has given to us in response to our request that this service should be commissioned as soon as possible. If you are saying that Velindre is giving us incorrect information, then it is incumbent upon you to give us that additional information to which you have access, so that we can go back to clarify Velindre's intentions in this regard.

sicrhau y caiff ei ddarparu yno erbyn diwedd yr haf, nid yn yr hydref, sef y pryder a fynegwyd imi yn gynharach heddiw? Pa asesiadau cost yr ydych wedi eu gwneud, a faint o arian a roddir i Gomisiwn Iechyd Cymru i dalu cost darparu'r gwasanaeth? Y rheswm a roddwyd am beidio â manteisio ar y gwasanaeth yn Lloegr y llynedd oedd bod costau'n cynyddu. Felly, os na allwch sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu erbyn diwedd yr haf, a allwch o leiaf warantu rhoi adnoddau digonol yng nghyllideb Comisiwn Iechyd Cymru i dalu am ddarparu'r driniaeth hanfodol hon?

**Brian Gibbons:** Seiliwyd yr amserlen ar drafodaethau gyda Felindre. Os ydych yn dweud mai eich ffynhonnell ar gyfer y dystiolaeth yr ydych newydd ei hamlinellu yw'r un ffynhonnell a roddodd sail inni ddod i gytundeb y dylid gweithredu'r gwasanaeth hwn erbyn yr haf, yna mae'r neges sy'n cael ei chyfleu yn anghyson, mae'n amlwg. Fodd bynnag, yn ôl a ddeallwn, ar sail trafodaethau gyda Felindre o ran pryd y gellir rhoi'r gwasanaeth hwn ar waith gyda'r adnoddau sydd gan Felindre, bydd y gwasanaeth hwn ar waith erbyn diwedd yr haf. Dyna'r farn a'r asesiad a roddwyd mewn ymateb i'n cais y dylid comisiynu'r gwasanaeth hwn cyn gynted â phosibl. Os ydych yn dweud bod Felindre yn rhoi gwybodaeth anghywir inni, mae'n gyfrifoldeb arnoch i roi'r wybodaeth ychwanegol honno sydd gennych wrth law, fel y gallwn fynd yn ôl i egluro bwriadau Felindre yn y cyswllt hwn.

### **Darparu Gwasanaethau Gofal Brys Delivering Emergency Care Services**

**Q4 David Melding:** Will the Minister make a statement on the delivering emergency care services strategy? OAQ1231(HSS)

**Brian Gibbons:** The project board is now revising the delivering emergency care services strategy document in the light of responses to the consultation and is overseeing the development of an implementation plan setting out the delivery process.

**David Melding:** Providing Wales with

**C4 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth i ddarparu gwasanaethau gofal brys? OAQ1231(HSS)

**Brian Gibbons:** Mae bwrdd y prosiect wrthi'n adolygu'r ddogfen strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau gofal brys yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu sy'n gosod allan y broses ddarparu.

**David Melding:** Mae darparu gwasanaethau

efficient, modern and effective emergency care services is one of the greatest challenges that we face. We also know that it is an exceptionally formidable challenge to get the public to realise some of the implications of developing and delivering modern services. Do you agree that we must seek some form of political consensus in this Chamber and engage effectively with people, so that the public has a genuine say in this and is not presented, at the final stage, with plans that have not been fully thought out or on which political consensus has not been achieved?

**Brian Gibbons:** Every significant service change in the NHS must be subject to public consultation. That goes without saying. Arbitrary implementation of a significant change to services without there being a consultation process goes against the guidance and practice that the Assembly Government expects to be followed. The DECS strategy has attracted overwhelming support from all of those who responded to the consultation document. In addition, the roll-out of the strategy will be based on four pilot studies, which will be undertaken in different parts of Wales. Therefore, there will not be a single big bang, but rather a more incremental introduction, based on the experience of patients using the service.

2.20 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gwnaed llawer o gyfeiriadau yn y Siambr ynglŷn â'r problemau a oedd yn wynebu'r adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf. A ydych yn ymwybodol hefyd fod problemau cyfatebol wedi bod yn y de-orllewin a bod hyd at 12 ambiwlans wedi bod yn sefyll y tu allan i'r adran yn Nhreforys, a bod problemau wedi bod yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru yng Nglangwili, Ysbyty'r Tywysog Philip ac yn ardal Castell-nedd Port Talbot hefyd? A welwch fod hyn yn broblem enfawr? Nid yn unig oes problem o ran cael mynediad i'r cleifion, ond mae'r ambiwlansys hynny wedi'u clymu y tu allan i'r ysbytai ac yn methu ag ymateb i alwadau. A ydych yn hyderus na fydd y math hwn o broblem yn codi eto yn y dyfodol, neu a oes rhaid inni dderbyn hwn fel adlewyrchiad o

gofal brys effeithlon, modern ac effeithiol i Gymru yn un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu. Gwyddom hefyd ei bod yn her aruthrol tu hwnt i sicrhau bod y cyhoedd yn sylweddoli rhai o oblygiadau datblygu a darparu gwasanaethau modern. A gytunwch fod yn rhaid inni gael rhyw fath o gonsensws gwleidyddol yn y Siambr hon ac ymgysylltu â phobl yn effeithiol, er mwyn i'r cyhoedd gael llais gwirioneddol yn hyn, ac na fyddwn yn cyflwyno cynlluniau iddynt, yn y pen draw, nad ydynt wedi eu hystyried yn bwyllog neu na chafwyd consensws gwleidyddol yn eu cylch?

**Brian Gibbons:** Rhaid i bob newid sylweddol yng ngwasanaethau'r GIG fod yn destun ymgynghori cyhoeddus. Afraid dweud hynny. Mae gweithredu newid sylweddol mewn gwasanaethau yn fypwyl heb ymgynghori yn mynd yn groes i'r canllawiau a'r arferion y mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl gweld eu dilyn. Mae strategaeth DECS wedi cael cefnogaeth aruthrol gan bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, caiff y strategaeth ei rhoi ar waith ar rannau o Gymru. Felly, nid un ergyd fawr fydd yn digwydd, ond cyflwyniad mwy graddol, yn seiliedig ar brofiad cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Many references have been made in the Chamber to the problems faced by accident-and-emergency departments in Cardiff last week. Are you also aware of the corresponding problems that have occurred in the south west, and that up to 12 ambulances were queuing up outside the department at Morriston, and that there have been problems at the West Wales General Hospital at Glangwili, at Prince Philip Hospital and in the Neath Port Talbot area also? Do you see this as a massive problem? Not only is there a problem in relation to getting access to patients, but those ambulances are tied up outside hospitals and cannot respond to calls. Are you confident that this kind of problem will not arise again in future, or is it something that we must accept as a reflection of the prevailing situation in Wales?

sefyllfa sy'n bodoli bellach yng Nghymru?

**Brian Gibbons:** No. When Alan Murray gave his evidence to the Health and Social Services Committee, one of the points that he highlighted was the turnaround time of ambulances at accident and emergency departments. He pointed out that this was one of the key areas for the modernisation of the ambulance service. Equally, he pointed out in his evidence to the committee that a large number of people were being transported to accident and emergency departments and that, with further training and the modernisation of the ambulance service, those patients could be dealt with safely and effectively without ever having to go to the accident and emergency department.

Therefore, the points that you make have been effectively covered by the modernisation strategy of the ambulance service. As that is rolled out, hopefully, the types of problems that you outline will not reoccur.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** Surely the problem of ambulances being stacked up at accident and emergency units is partially down to your targets. You have two targets. On the one hand, all new patients should spend less than four hours in a major accident and emergency department from arrival to admission, and on the other hand is the target for the ambulances, which is the speed within which people are picked up. Therefore, you end up with people stacked up on corridors, on their ambulance trolleys—and I have seen this for myself in more than one accident and emergency unit—waiting for the hospital to take them in. That is when the four-hour clock starts. The problem is that you do not have one appropriate target for all this and you have two clashing targets, which means that ambulances are stacked up at hospitals with people on trolleys waiting to be admitted because that solves the target for those accident and emergency units.

**Brian Gibbons:** I do not agree. I realise that there have been anecdotal reports that that is

**Brian Gibbons:** Nac ydwyf. Pan roddodd Alan Murray ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o'r pwyntiau y tynnodd sylw atynt oedd amseroedd ymateb cerbydau ambiwlans mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Nododd mai hwn oedd un o'r meysydd allweddol ar gyfer moderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans. Yn yr un modd, nododd yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor fod nifer fawr o bobl yn cael eu cludo i adrannau damweiniau ac achosion brys ac y gellid trin y bobl hynny'n ddiogel ac yn effeithiol heb orfod mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys o gwbl, pe bai mwy o hyfforddiant ar gael a phe bai'r gwasanaeth ambiwlans yn cael ei foderneiddio.

Felly, cynhwyswyd y pwyntiau a wnewch mewn gwirionedd gan strategaeth foderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans. Wrth i honno gael ei rhoi ar waith, y gobaith yw na fydd y mathau o broblemau y soniwyd amdanynt yn ailgodi.

**Arweinydd Grwp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Eich targedau chi, 'does bosibl, sy'n rhannol gyfrifol am y broblem fod gormod o gerbydau ambiwlans yn aros yn rhes mewn unedau damweiniau ac achosion brys. Ar y naill law, dylai pob claf newydd dreulio llai na phedair awr mewn prif adran damweiniau ac achosion brys o'r adeg y bydd yn cyrraedd nes iddo gael ei dderbyn, ac ar y llaw arall mae'r targed ar gyfer y cerbydau ambiwlans, sef pa mor gyflym y caiff pobl eu casglu. Felly, mae pobl yn aros eu tro mewn coridorau, ar droliâu'r ambiwlans—ac yr wyf wedi gweld hyn fy hun mewn mwy nag un uned ddamweiniau ac achosion brys—yn aros i'r ysbyty eu derbyn. Bryd hynny mae'r cloc pedair awr yn dechrau. Y broblem yw nad oes gennych un targed priodol ar gyfer hyn i gyd, a bod gennych ddau darged sy'n gwrthdaro, sy'n golygu bod cerbydau ambiwlans yn aros y tu allan i ysbytai a phobl ar droliâu yn aros i gael eu derbyn am fod hynny'n datrys y targed ar gyfer yr unedau damweiniau ac achosion brys hynny.

**Brian Gibbons:** Nid wyf yn cytuno. Sylweddolaf fod yna adroddiadau

happening, particularly in England, but I am not aware of any incidences in Wales of that type of gamesmanship—if one wants to call it such. If it is not possible to transfer patients into an accident and emergency department, that is due to the workload pressures in that department. I would be disappointed to hear that the reason they were not being admitted was simply because that would have an effect on the clock.

If you have specific cases in which this has operated, it is important that I am made aware of them because that is totally against the spirit and the letter of best practice in this particular area.

anecodaidd fod hynny'n digwydd, yn enwedig yn Lloegr, ond ni wn am ddim achosion yng Nghymru o'r math hwnnw o ystryw-os ydych am gyfeirio ato felly. Os nad yw'n bosibl trosglwyddo cleifion i adran ddamweiniau ac achosion brys, mae hynny oherwydd llwyth gwaith yr adran honno. Byddwn yn siomedig iawn clywed mai'r rheswm nad oeddent yn cael eu trin oedd am y byddai hynny'n effeithio ar y cloc.

Os oes gennych achosion penodol lle mae hyn wedi digwydd, mae'n bwysig imi wybod amdanynt gan fod hynny'n hollol groes i arferion gorau yn y maes penodol hwn.

### Contract Meddygon Teulu GP Contract

**Q5 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on how the GP contract is impacting on patient care? OAQ1243(HSS)

**C5 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffordd y mae'r contract meddygon teulu yn effeithio ar ofal cleifion? OAQ1243(HSS)

**Brian Gibbons:** The general medical services contract introduced the quality and outcomes framework that rewards the provision of high-quality care to patients with 19 of the most common chronic conditions. It also introduced enhanced services that bring healthcare services closer to patients' homes and has made general practice a more attractive place to work.

**Brian Gibbons:** Yr oedd y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cyflwyno fframwaith ansawdd a chanlyniadau sy'n gwobrwyo darparu gofal o safon i gleifion sydd â'r 19 o gyflyrau cronig mwyaf cyffredin. Yr oedd hefyd yn cyflwyno gwasanaethau gwell sy'n dod â gwasanaethau gofal iechyd yn nes at gartrefi cleifion, ac mae wedi sicrhau bod maes practis cyffredinol yn lle mwy deniadol i weithio.

**Jenny Randerson:** I recently visited a general practitioner, who is one of my constituents and practises in Butetown Health Centre which, I believe, you have also visited. I am sure that you will agree that the condition of the premises there is truly appalling and totally inappropriate for the twenty-first century. It is impossible for the centre to implement any of the aims in your document 'Designed for Life' or any of the expanded services of the new contract. This practice is the only one in Wales to be commissioned to care for the homeless, most of whom live in my constituency, either on the streets or in temporary accommodation.

**Jenny Randerson:** Ymwelais â meddyg teulu'n ddiweddar sy'n un o'm hetholwyr ac sy'n gweithio yng Nghanolfan Iechyd Butetown. Credaf eich bod wedi ymweld â hi'n ddiweddar. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod cyflwr yr adeilad yno'n wirioneddol warthus ac yn hollol amhriodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n amhosibl i'r ganolfan weithredu unrhyw rai o'r nodau yn eich dogfen 'Cynllun Oes' nac unrhyw rai o'r gwasanaethau estynedig yn y contract newydd. Y practis hwn yw'r unig un yng Nghymru i gael ei gomisiynu i ofalu am y digartref, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw yn fy etholaeth, naill ai ar y strydoedd neu mewn llety dros dro.

In addition, there is also a dire shortage of general practitioners in general in that part of

Yn ogystal, mae prinder aruthrol o feddygon teulu yn gyffredinol yn y rhan honno o

Cardiff. This practice has been waiting for years for new premises, Minister, and the situation is so bad that the GP concerned is considering giving up. Your Government turned down the local health board's recent bid for funding for temporary premises. Will you agree, Minister, to take urgent action to address the shortage of GPs in several areas of Cardiff, all of which are the poorest areas of the city, and to address the condition of these premises in Butetown in particular?

**Brian Gibbons:** If we are talking about the same practice, I know that more than one option was explored. My understanding is that one of the options put forward was regarded by everybody involved as not only extremely expensive but temporary, and there was general agreement that a more permanent, long-term, affordable option was the desirable way forward. There was agreement all round on that, and it is my understanding that that is the basis upon which discussions are now taking place between the local health board and that practice. Having visited the practice, I commend it for providing excellent services in what I would regard as extremely difficult circumstances within which to deliver high-quality care, and there is absolutely no doubt about the commitment of the GP and the staff working in those particular premises.

**Jenny Randerson:** Minister, another temporary solution would be for the trust to provide that surgery with a couple of underused rooms in the same premises; it cannot even get that agreement from the trust, and I would be grateful if you could intervene on that issue.

The Wales-wide survey of GPs that I conducted showed that, throughout Wales, the issue of premises is a major concern and that problems are experienced in funding new premises. The solution that you mentioned for these particular premises is several years away, and in the interim the staff are working in impossible conditions, but they are not alone; there are people throughout Wales operating in similar circumstances. I did some research into the process for applying

Gaerdydd. Mae'r practis hwn wedi bod yn aros ers blynnyddoedd am adeilad newydd, Weinidog, ac mae'r sefyllfa gynddrwg nes i'r meddyg teulu dan sylw ystyried rhoi'r gorau i'w gwaith. Gwrthododd eich Llywodraeth gais gan y bwrdd iechyd lleol yn ddiweddar am arian i gael adeilad dros dro. A gytunwch, Weinidog, i gymryd camau ar frys i fynd i'r afael â'r prinder meddygon teulu mewn llawer ardal yng Nghaerdydd, sydd i gyd yn ardaloedd tlotaf y ddinas, a mynd i'r afael â chyflwr yr adeiladau hyn yn Butetown yn benodol?

**Brian Gibbons:** Os ydym yn sôn am yr un practis, gwn fod mwy nag un dewis wedi ei archwilio. Yn ôl a ddeallaf, yr oedd pawb dan sylw o'r farn fod un o'r dewisiadau a gynigiwyd nid yn unig yn eithriadol o ddrud, ond hefyd yn ateb dros dro, a chytunwyd yn gyffredinol mai opsiwn mwy parhaol, hirdymor, fforddiadwy oedd y ffordd ddymunol ymlaen. Cytunodd pawb ar hynny, a deallaf mai ar y sail honno y mae trafodaethau'n mynd ymlaen ar hyn o bryd rhwng y bwrdd iechyd lleol a'r practis hwnnw. Ar ôl ymweld â'r practis, yr wyf yn ei ganmol am ddarparu gwasanaethau ardderchog a hynny, yn fy marn i, mewn amgylchiadau anodd tu hwnt i ddarparu gofal o safon uchel, ac nid oes amheuaeth o gwbl ynghylch ymrwymiad y meddyg teulu a'r staff sy'n gweithio yn yr adeilad penodol hwnnw.

**Jenny Randerson:** Weinidog, ateb arall dros dro fyddai i'r ymddiriedolaeth ddarparu ychydig ystafelloedd yn yr un adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llwyr i'r practis hwnnw; ni all gael y cytundeb hwnnw, hyd yn oed, gan yr ymddiriedolaeth, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymyrryd ar y mater hwnnw.

Yr oedd yr arolwg Cymru gyfan o feddygon teulu a wneuthum yn dangos bod mater adeiladau'n achosi pryder mawr ledled Cymru a bod problemau wrth geisio ariannu adeiladau newydd. Mae'r ateb y soniech amdano ar gyfer yr adeiladau penodol hyn flynyddoedd i ffwrdd, ac yn y cyfamser mae'r staff yn gweithio mewn amodau amhosibl. Ond nid hwy yw'r unig rai; mae pobl ledled Cymru yn gweithio mewn amgylchiadau tebyg. Gwneuthum ychydig

for funding, and to say that it is lengthy and complex is a gross understatement. Can you tell us exactly how much was allocated for premises improvement last year and this year? Can you also tell us whether the money was fully allocated last year, and whether it is likely to be fully allocated this year? Lastly, could you please simplify the system?

**Brian Gibbons:** First, the system for new premises and upgrades has to be in line with the local health board's primary care estates strategy, because in the past we saw general practice provision gravitating towards the leafier suburbs of towns, and people from less affluent areas having to travel across town, so there needs to be a coherent estates strategy for primary care. Our investment, which we approved under the new arrangements, is of the order of £37 million, though at times it is difficult to get precise information because the vast majority of developments of practice premises take place through third-party developers, and we, as an Assembly Government, do not directly fund the capital, but fund the revenue consequences of those schemes. Therefore the detail money is often in the general revenue allocation to local health boards rather than in a capital investment sum, which you would see, for example, with a hospital.

**Janice Gregory:** Minister, you will recall that I wrote to you about a GP surgery in Pencoed in my constituency. This new surgery had the most horrendous problems, very similar to those described by Jenny. I am extremely grateful to you, Minister, and to the Labour Welsh Assembly Government, for agreeing the temporary accommodation, but would you look further into the issue of the new surgery in Pencoed, because I understand that the Liberal-Democrat-led Bridgend County Borough Council is now trying to renege on an agreement with the local health board regarding the cost of the land, which will put back the new surgery project for a considerable time. It is trying to get another £300,000 from the local health board, which would have paid for the chief

waith ymchwil i'r broses o wneud cais am arian, ac mae dweud bod y broses yn faith ac yn gymhleth yn dweud llai na'r gwirionedd. A allwch ddweud wrthym faint yn union a ddyrannwyd ar gyfer gwella adeiladau y llynedd ac eleni? A allwch hefyd ddweud wrthym a ddyrannwyd yr arian yn llawn y llynedd, ac a yw'n debygol o gael ei ddyrannu'n llawn eleni? I gloi, a allwch symleiddio'r system?

**Brian Gibbons:** Yn gyntaf, rhaid i'r system ar gyfer adeiladau newydd a gwella adeiladau gyd-fynd â strategaeth ystadau gofal sylfaenol y bwrdd iechyd lleol, oherwydd yn y gorffennol yr ydym wedi gweld y ddarpariaeth practisau cyffredinol yn tueddu at faestrefi mwy llewyrchus trefi, a phobl o ardaloedd llai cefnog yn gorfod teithio ar draws y dref. Felly, mae angen cael strategaeth ystadau gydlynol ar gyfer gofal sylfaenol. Mae ein buddsoddiad, a gymeradwywyd gennym o dan y trefniadau newydd, tua £37 miliwn, er ei bod yn anodd cael gwybodaeth gywir ar brydiau am fod y rhan fwyaf o'r gwaith o ddatblygu adeiladau practisau yn digwydd drwy ddatblygwyr trydydd parti, ac nid ydym, fel Llywodraeth y Cynulliad, yn ariannu'r cyfalaf yn uniongyrchol, ond yn ariannu canlyniadau refeniw y cynlluniau hynny. Felly, mae'r arian penodol yn aml yn y dyraniad refeniw cyffredinol i'r byrddau iechyd lleol, yn hytrach nag mewn swm buddsoddi cyfalaf y byddech yn ei weld, er enghraifft, gydag ysbty.

**Janice Gregory:** Weinidog, fe gofiwch imi ysgrifennu atoch ynghylch practis meddyg teulu ym Mhencoed yn fy etholaeth. Yr oedd yn y practis newydd hwn y problemau mwyaf dychrynlyd, yn debyg iawn i'r rheini a ddisgrifiwyd gan Jenny. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i chi, Weinidog, a Llywodraeth Lafur Cynulliad Cymru am gytuno i ddarparu adeilad dros dro, ond a wnewch ymchwilio ymhellach i'r practis newydd ym Mhencoed, oherwydd deallaf fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dan arweiniad y Democratiaid Rhyddfrydol, yn ceisio torri cytundeb gyda'r bwrdd iechyd lleol am gost y tir, a fydd yn gohirio prosiect y practis newydd am gryn amser. Mae'n ceisio cael £300,000 yn ychwanegol gan y bwrdd iechyd lleol, a



executive's redundancy package.

fyddai wedi talu am becyn colli swydd y prif weithredwr.

2.30 p.m.

**Brian Gibbons:** I remember the exchanges that we had on the Pencoed practice, and it was extremely important that some sort of agreement had been reached, because, as I understand it, salaried doctors were willing to come together to establish a practice in Pencoed. I understand that they formed their own practice to provide permanent treatment for the people on their list. However, I am disappointed to hear what you say, and so I would ask you to drop me a line with the specific details. Given the amount of work and effort that has gone into this, and the commitment of the practitioners involved, it would be disappointing if it were set back by people who think that they have the health service over a barrel inappropriately.

**Brian Gibbons:** Cofiaf y trafodaethau a gawsom am y practis ym Mhencoed, ac yr oedd yn bwysig iawn inni fod wedi dod i ryw fath o gytundeb, oherwydd fel y deallaf yr oedd meddygon cyflogedig yn fodlon dod at ei gilydd i sefydlu practis ym Mhencoed. Deallaf iddynt ffurfio'u practis eu hunain i ddarparu triniaeth barhaol ar gyfer y bobl ar eu rhestr. Fodd bynnag, mae'n siomedig clywed yr hyn a ddywedwch, ac felly gofynnaf ichi gysylltu â mi gyda'r manylion penodol. O gofio'r gwaith a wnaethpwyd a'r ymdrech a roddwyd, ac ymrwymiad y meddygon dan sylw, byddai'n siomedig pe bai'n cael ei rwystro gan bobl sy'n credu bod y gwasanaeth iechyd ar eu trugaredd hwy yn amhriodol.

### **Cefnogi Ysbytai Cymunedol Supporting Community Hospitals**

**C6 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ysbytai cymunedol yng Ngheredigion? OAQ1267(HSS)

**Q6 Elin Jones:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies for supporting community hospitals in Ceredigion? OAQ1267(HSS)

**Brian Gibbons:** 'Designed for Life' explains the important future role of community hospitals in Wales, which might include accommodating diagnostic treatment, support services and care in or near the home. The draft community services framework, which is due to be published, indicates how local bodies will need to develop the role in a strengthened community health service sector.

**Brian Gibbons:** Mae 'Cynllun Oes' yn esbonio rôl bwysig ysbytai cymuned yng Nghymru yn y dyfodol, a allai gynnwys darparu triniaeth ddiagnostig, gwasanaethau cymorth a gofal yn y cartref neu gerllaw. Mae drafft y fframwaith gwasanaethau cymunedol y disgwylir ei gyhoeddi'n fuan yn dangos sut y bydd angen i gyrff lleol ddatblygu'r rôl mewn sector gwasanaethau iechyd cymunedol sydd wedi'i gryfhau.

**Elin Jones:** Ychydig cyn etholiad 2003, cyhoeddodd eich Llywodraeth arian ar gyfer adeiladau newydd yng Ngheredigion: £3.7 miliwn ar gyfer canolfan iechyd yn Aberaeron, £7.8 miliwn ar gyfer ysbyty cymunedol yn Nhregaron, a £9.7 miliwn ar gyfer ysbyty cymunedol yn Aberteifi. Nid yw'r gwaith adeiladu wedi cychwyn ar yr un o'r adeiladau hynny eto. Bedair blynedd yn ddiweddarach, a ydych eto mewn sefyllfa i gadarnhau a yw'r arian hwn—dros £20

**Elin Jones:** Just prior to the 2003 election, your Government announced new capital funding for Ceredigion: £3.7 million for Aberaeron health centre, £7.8 million for Tregaron community hospital, and £9.7 million for Cardigan community hospital. The building work has not yet commenced on any of those buildings. Four years later, are you now in a situation to confirm whether that money—more than £20 million—continues to be ring-fenced for those new

miliwn—o hyd wedi'i glustnodi ar gyfer yr adeiladau newydd hynny yng Ngheredigion, sef dau ysbyty cymunedol a chanolfan iechyd newydd?

**Brian Gibbons:** The money is still in the indicative 'Designed for Life' fund, and it was specifically earmarked for these community services. However, it would be incorrect to say that it is allocated, because it cannot be allocated until a business case has been submitted and approved. At the moment, no concrete proposals have come in supported by a business case to allow this money to be allocated along the lines that you suggest. It is important that the Ceredigion trust gets its estates strategy in place, and starts to develop the business plan to make these services available for people in Ceredigion.

**Lisa Francis:** You may be aware that there are currently no guarantees not to axe consultant clinics held in Aberaeron and Cardigan hospitals in Ceredigion. There is a similar situation at Machynlleth and Tywyn hospitals outside Ceredigion, but all four clinics are being reviewed by the Ceredigion and Mid Wales NHS Trust, following the introduction of the new contract for consultants. For some of our more elderly and frail citizens, 30 miles is too far to travel to attend a clinic when public transport in many of these areas is unreliable and does not necessarily take patients from door to door. Travel times are apparently being taken into consideration as part of this review, but do you agree that the issue is about far more than that? Lessons must be learned from the massive public opposition to the proposed reconfiguration of NHS services seen in Mid and West Wales. What meaningful consultation exercise will you advise the trust in Ceredigion to carry out in respect of these clinics?

**Brian Gibbons:** I certainly know a little bit about the situation in relation to Aberaeron, and I do not think that your description is accurate. It is true that the number of clinics

buildings in Ceredigion, namely two new community hospitals and a new health centre?

**Brian Gibbons:** Mae'r arian yn y gronfa 'Cynllun Oes' ddangosol o hyd, a chafodd ei glustnodi'n benodol ar gyfer y gwasanaethau cymunedol hyn. Fodd bynnag, byddai'n anghywir dweud ei fod wedi'i ddyrannu, oherwydd ni all gael ei ddyrannu nes bydd achos busnes wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo. Ar hyn o bryd, nid oes dim cynigion pendant wedi'u cyflwyno, wedi'u hategu gan achos busnes, i alluogi'r arian hwn i gael ei ddyrannu ar hyd y llinellau a awgrymwch. Mae'n bwysig i ymddiriedolaeth Ceredigion roi ei strategaeth ystadau ar waith, a dechrau datblygu cynllun busnes i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i bobl yng Ngheredigion.

**Lisa Francis:** Efallai y gwyddoch nad oes gwarantau o gwbl ar hyn o bryd na chaiff y clinigau ymgynghorwyr yn ysbytai Aberaeron ac Aberteifi yng Ngheredigion eu dirwyn i ben. Mae sefyllfa debyg yn ysbytai Machynlleth a Thywyn y tu allan i Geredigion, ond mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wrthi'n adolygu'r pedwar clinig, yn sgil cyflwyno'r contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol. I rai o'n dinasyddion mwy oedranus ac eiddil, mae 30 milltir yn rhy bell i deithio i fynd i glinig pan fydd cludiant cyhoeddus mewn nifer o'r ardaloedd hyn yn annibynadwy a heb o reidrwydd fod yn mynd â'r cleifion o ddrws i ddrws. Mae'n debyg fod amseroedd teithio yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn, ond a gytunwch fod y mater yn ymwneud â llawer mwy na hynny? Rhaid dysgu gwersi o'r gwrthwynebiad mawr ymhlith y cyhoedd i'r broses arfaethedig o ail-gyflunio gwasanaethau'r GIG a gafwyd yn y canolbarth a'r gorllewin. Pa fath o ymgynghori ystyrlon y byddwch yn cynghori'r ymddiriedolaeth yng Ngheredigion i'w wneud ar gyfer y clinigau hyn?

**Brian Gibbons:** Yn sicr yr wyf yn gwybod rhywfaint am y sefyllfa yn Aberaeron, ac ni chredaf fod eich disgrifiad yn gywir. Mae'n wir bod nifer y clinigau yn Aberaeron yn

in Aberaeron varies, but the clinics vary in frequency and number depending on the amount of people waiting on the list to attend them. Therefore, there will be some instances in which those clinics will be held more frequently than others, but that is not dictated by the reasons that you suggest; the frequency and number of clinics are dictated by the number of patients waiting to be seen.

amrywio, ond mae'r clinigau'n amrywio o ran amllder a nifer yn ôl nifer y bobl sy'n aros ar y rhestr i fynd iddynt. Felly, bydd rhai achosion pan fydd y clinigau hynny'n cael eu cynnal yn amlach nag eraill, ond nid y rhesymau a awgrymwyd gennych sy'n gyfrifol am hynny. Mae nifer y clinigau a'u hamlder yn dibynnu ar nifer y cleifion sy'n aros i gael eu gweld.

### **Anghydraddoldebau Iechyd (Merthyr Tudful a Rhymni) Health Inequalities (Merthyr Tydfil and Rhymney)**

**Q7 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to tackle the health inequalities affecting Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ1281(HSS)

**C7 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ1281(HSS)

**Brian Gibbons:** Health inequalities in Merthyr Tydfil and Rhymney are being tackled at root cause through actions targeted at social and economic disadvantage. Specific programmes under the banner of Health Challenge Wales include the inequalities in health fund, equity training and advocacy grants, the food and fitness action plan, food co-operatives and Want to Work. Many or all of these programmes are in operation in the Merthyr Tydfil area.

**Brian Gibbons:** O ran anghydraddoldebau iechyd ym Merthyr Tudful a Rhymni, yr ydym yn mynd i'r afael â gwraidd y broblem drwy gymryd camau sy'n targedu anfantais gymdeithasol ac economaidd. Ymhlith y rhaglenni penodol o dan faner Her Iechyd Cymru mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd, grantiau hyfforddiant tegwch ac eiriolaeth, y cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd, sefydliadau cydweithredol bwyd, ac Yn Awyddus i Weithio. Mae nifer o'r rhaglenni hyn, os nad pob un ohonynt, ar waith yn ardal Merthyr Tudful.

**Huw Lewis:** You will be aware, from various correspondence and conversations with me, of the issue opened up in my community by Cambian Healthcare Ltd—a private healthcare company that is on the verge of opening a secure forensic-psychiatric unit in the middle of a residential area in the town of Rhymney. It is able to do so by exploiting planning and health regulations, to my mind. Will you agree to meet with your colleague, Carwyn Jones, to discuss the various loopholes that this company has exploited in the change-of-use policy to change a residential care home for the elderly into a secure psychiatric unit, without any regulation interfering with that process?

**Huw Lewis:** Fe wyddoch, o wahanol ohebiaeth gennyf a sgysiau gyda mi, am y mater sydd wedi codi yn fy nghymuned gan Cambrian Healthcare Cyf-cwmni gofal iechyd preifat sydd ar fin agor uned ffforensig-seiciatrig ddiogel yng nghanol ardal breswyl yn nhref Rhymni. Gall wneud hynny drwy gam-fanteisio ar reoliadau cynllunio ac iechyd, yn fy marn i. A gytunwch i gyfarfod â'ch cyd-Weinidog, Carwyn Jones, i drafod yr amrywiol fannau gwan y mae'r cwmni hwn wedi cam-fanteisio arnynt yn y polisi newid defnydd i newid cartref gofal preswyl i'r henoed yn uned seiciatrig ddiogel, heb fod unrhyw reoliad yn ymyrryd â'r broses honno?

**Brian Gibbons:** In this case, the levers at our disposal have been demonstrated to be pretty weak. This is not the only instance of fairly mainstream provision being located for the

**Brian Gibbons:** Yn yr achos hwn, dangoswyd bod y dulliau sydd gennym yn eithaf gwan. Nid dyma'r unig achos o leoli darpariaeth brif ffrwd er hwylustod y

convenience of the provider rather than for the convenience and in the best interests of the service user. That is why it is important for our commissioning process in Wales to be made much stronger. I will take up the point that you suggested, but my slight concern is that any measures that we try to put in place may fall foul of rules relating to trade restriction. We may find ourselves coming to grief on that issue, but I agree that we need stronger levers in this area—as long as they are consistent with wider business law.

**Jocelyn Davies:** Thank you for that answer, Minister, because a great many people are concerned about this. I am glad that you have agreed to meet with the Minister responsible for planning. I have written to him many times about this. However, surely the issue is not trade restriction, but whether that site is suitable for what is being proposed for it. That is what the planning system is there to regulate.

**Brian Gibbons:** It is a little more complicated than that. It may need a planning requirement, and then it has to be passed as being fit for purpose by Healthcare Inspectorate Wales. If it meets the standards of the healthcare inspectorate, that facility will be allowed to operate. It is possible to pass the standards of the healthcare inspectorate and to pass planning requirements but to have an undesirable outcome along the lines that Huw Lewis just mentioned. Therefore, the range of tools at our disposal is probably inadequate, and we need to consider ways of strengthening those tools within the existing law.

darparwr yn hytrach nag ar gyfer hwylustod a lles defnyddiwr y gwasanaeth. Dyna pam mae'n bwysig sicrhau bod ein proses gomisiynu yng Nghymru lawer yn gryfach. Byddaf yn ystyried y pwynt a awgrymwyd gennych, ond yr wyf ychydig yn bryderus y gallai unrhyw fesurau y ceisiwn eu rhoi ar waith fynd yn groes i reolau'n ymwneud â chyfyngiadau masnachu. Gallem fynd i drafferth ar y mater hwnnw, ond cytunaf fod angen inni gael dulliau cryfach ar waith yn y maes hwn—cyhyd â'u bod yn gyson â chyfraith busnes ehangach.

**Jocelyn Davies:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, gan fod llawer iawn o bobl yn pryderu am hyn. Yr wyf yn falch eich bod wedi cytuno i gyfarfod â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio. Yr wyf wedi ysgrifennu ato droeon ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, onid addasrwydd y safle ar gyfer yr hyn a fwriedir yno sydd bwysicaf, nid cyfyngiadau masnachu. Dyna y mae'r system gynllunio yno i'w reoleiddio.

**Brian Gibbons:** Mae'r sefyllfa ychydig yn fwy cymhleth na hynny. Efallai bod angen gofyniad cynllunio ar y safle, ac yna rhaid i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddatgan ei fod yn addas at y diben. Os bydd yn cyrraedd safonau'r arolygiaeth gofal iechyd, caniateir i'r cyfleuster hwnnw weithredu. Mae'n bosibl cyrraedd safonau'r arolygiaeth gofal iechyd a bodloni gofynion cynllunio a chael canlyniad annymunol yn debyg i'r hyn a grybwyllwyd gan Huw Lewis. Felly, mae'n debyg fod amrywiaeth y dulliau sydd gennym i'w defnyddio yn annigonol, ac mae angen inni ystyried ffyrdd i atgyfnerthu'r dulliau hynny o fewn y gyfraith bresennol.

### **Gwella Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Improving the Provision of Health Services**

**Q8 Leanne Wood:** What recent discussions has the Minister held on improving the provision of health services in South Wales Central? OAQ1265(HSS)

**Brian Gibbons:** My officials are in regular discussion with health organisations in the region. The provision and performance of services and developments are essential elements of this discussion, and I regularly monitor the roll-out of such services.

**C8 Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ar wella darpariaeth gwasanaethau iechyd yng Nghanol De Cymru? OAQ1265(HSS)

**Brian Gibbons:** Bydd fy swyddogion yn trafod yn rheolaidd gyda sefydliadau iechyd yn y rhanbarth. Mae darpariaeth a pherfformiad gwasanaethau a datblygiadau yn elfennau hanfodol yn y trafodaethau hynny, ac yr wyf yn monitro'r gwaith o

gyflwyno'r gwasanaethau hynny'n rheolaidd.

**Leanne Wood:** I have just received the revised reconfiguration plan from the Rhondda Cynon Taf and Merthyr Tydfil redesign project team, which indicates that 24-hour emergency surgery and consultant-led obstetric services are being considered for closure at either the Prince Charles Hospital or the Royal Glamorgan Hospital in Llantrisant. The Academy of Medical Royal Colleges states that one part of a hospital closing can have a knock-on, domino effect on other parts of that hospital. Do you agree with that statement?

**Brian Gibbons:** No.

2.40 p.m.

**Leighton Andrews:** Do you agree that the document that was just referred to will produce options that will go out to full public consultation, which means that members of the public in the constituencies affected will have the opportunity to comment on the proposals contained in it? Do you also agree that that document makes it clear that the option of closing accident-and-emergency provision at those two hospitals is not on the table for future discussion?

**Brian Gibbons:** I am pleased to confirm that. It is important that people in the Pontypridd and Rhondda NHS Trust and the North Glamorgan NHS Trust realise the status of such documents. People will be aware of merger talks going on between those two trusts, and so the status of this document will not be determined just by the local health board, as Leanne suggested; it must be the shared property of the new organisation and the people of Merthyr and the hinterland for Pontypridd and Rhondda NHS Trust. Therefore, that document has no current status other than its being an assessment made by Rhondda Cynon Taf. I certainly would not see it as the definitive document shaping the nature of services provided to these communities. Given the record investment going into hospitals at Llantrisant, Llwynypia, and Merthyr, health services for that community will improve dramatically under this Welsh Labour

**Leanne Wood:** Yr wyf newydd gael y cynllun ail-gyflunio diwygiedig gan dîm prosiect ailgynllunio Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, sy'n nodi bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gau'r gwasanaeth llawdriniaeth frys 24 awr a'r gwasanaethau obstetreg a arweinir gan feddygon ymgynghorol naill ai yn Ysbyty'r Tywysog Siarl neu Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Mae Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol yn dweud y gall cau un rhan o ysbyty effeithio yn ei dro ar rannau eraill o'r ysbyty hwnnw. A ydych yn cytuno â'r datganiad hwnnw?

**Brian Gibbons:** Nac ydwyf.

**Leighton Andrews:** A ydych yn cytuno y bydd y ddogfen y cyfeiriwyd ati yn cynhyrchu dewisiadau a fydd yn destun ymgynghori cyhoeddus llawn, sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn yr etholaethau yr effeithir arnynt yn cael y cyfle i roi sylwadau am y cynigion sydd ynddi? A ydych yn cytuno hefyd fod y ddogfen honno'n gwneud yn glir nad yw'r dewis o gau'r ddarpariaeth damweiniau ac achosion brys yn y ddau ysbyty hynny wedi ei gyflwyno i'w drafod yn y dyfodol?

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn falch o gadarnhau hynny. Mae'n bwysig i bobl yn Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg sylweddoli statws dogfennau o'r fath. Bydd pobl yn gwybod am drafodaethau uno sy'n mynd ymlaen rhwng y ddwy ymddiriedolaeth hynny, ac felly nid y bwrdd iechyd lleol yn unig a fydd yn pennu statws y ddogfen hon, fel yr awgrymodd Leanne: rhaid iddi gael ei derbyn ar y cyd gan y sefydliad newydd a chan bobl Merthyr a chefnwlad Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda. Felly, nid oes i'r ddogfen honno ddim statws cyfredol ar wahân i fod yn asesiad a wnaed gan Rhondda Cynon Taf. Yn sicr, ni fyddwn yn ei hystyried yn ddogfen derfynol a fydd yn llunio natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cymunedau hyn. O gofio'r buddsoddiad mwyaf erioed sy'n cael ei roi i ysbytai yn Llantrisant, Llwynypia a Merthyr, bydd gwasanaethau iechyd ar

Government.

gyfer y gymuned honno'n gwella'n sylweddol o dan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

### Blaenoriaethau ar gyfer De-orllewin Cymru Priorities for South-west Wales

**Q1 Janet Davies:** Will the Minister make a statement on his priorities for south-west Wales? OAQ1179(CWS)

**C1 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer de-orllewin Cymru? OAQ1179(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** My priority for all parts of Wales is to improve opportunities for people to take part in and enjoy the widest possible range of cultural experiences.

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Fy mlaenoriaeth ar gyfer pob rhan o Gymru yw gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl gymryd rhan yn yr amrywiaeth fwyaf sy'n bosibl o brofiadau diwylliannol ac i'w mwynhau.

**Janet Davies:** On Monday, the First Minister made an interesting speech, in which he said that jobs that do not have to be done in London and the south east should be dispersed around Britain as much as is possible. The 2012 Olympic Games being held in London serves only to make that aim more urgent over the next five years. What action are you taking to ensure that services within your portfolio priorities move to south-west Wales?

**Janet Davies:** Ddydd Llun, rhoddodd y Prif Weinidog araith ddiddorol, pan ddywedodd y dylai swyddi nad oes rhaid iddynt gael eu gwneud yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr gael eu gwasgaru ar hyd a lled Prydain gymaint â phosibl. Mae Gemau Olympaidd 2012 sy'n cael eu cynnal yn Llundain yn golygu bod angen rhoi hyd yn oed mwy o flaenoriaeth i'r nod hwnnw dros y pum mlynedd nesaf. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau sy'n flaenoriaethau yn eich portffolio chi yn symud i dde-orllewin Cymru?

**Alun Pugh:** I do not think that we should show favouritism to any particular region of Wales. However, the 2012 Olympics provide a range of valuable sporting and business opportunities. I understand that the excellent national swimming pool in Swansea is looking to put itself up as a training venue, and around 500 businesses have registered with the Olympic authority and so will be competing for contracts. Many of those will be in the region that you represent.

**Alun Pugh:** Ni chredaf y dylem ddangos ffafriaeth i unrhyw ranbarth penodol o Gymru. Fodd bynnag, mae Gemau Olympaidd 2012 yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon a busnes gwerthfawr. Deallaf fod y pwll nofio cenedlaethol gwych yn Abertawe yn ystyried cynnig ei hun fel lleoliad hyfforddi, ac mae tua 500 o fusnesau wedi cofrestru gydag awdurdod y Gemau Olympaidd, ac felly byddant yn cystadlu am gontractau. Bydd nifer o'r busnesau hynny yn y rhanbarth yr ydych chi'n ei gynrychioli.

**Alun Cairns:** Minister, I have spoken to you previously about proposals for an international horse trial event at Margam park. Since then, there has been fantastic interest within the equestrian field, and one world-class designer has committed himself

**Alun Cairns:** Weinidog, yr wyf wedi siarad â chi eisoes ynghylch cynigion i gynnal digwyddiad treialon ceffylau rhyngwladol ym mharc Margam. Ers hynny, mae diddordeb rhyfeddol wedi bod yn y maes marchogaeth, ac mae un cynllunydd o'r radd flaenaf wedi

to supporting the project to ensure that it attracts the highest levels of horse trial events. The local authority has been exceptionally supportive, as have the two neighbouring authorities of Bridgend and Swansea, and it has specific plans to ensure accessibility for some disadvantaged communities, including those with special educational needs. What considerations have you given to supporting that, and will you or your officials meet some of the organisations involved to ensure that this is exploited for the whole region and the whole of Wales?

**Alun Pugh:** We support all sorts of events across Wales, including cultural and sporting events. Signature events, such as getting the FA Cup finals to Cardiff, have had an enormous impact on the economic development of that part of Wales, and we also sponsor a range of smaller events. They are all assessed against business plans, to see what level of public investment is required and what benefits Wales would get from that event. However, I would be happy for officials, at least in the first instance, to meet your constituents.

ymrwymo i gefnogi'r prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn denu'r digwyddiadau treialon ceffylau gorau. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gefnogol iawn, a hefyd awdurdodau cyfagos Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, ac mae ganddo gynlluniau penodol ar waith i sicrhau hwylustod i rai cymunedau difreintiedig, gan gynnwys pobl ag anghenion addysgol arbennig. Pa ystyriaethau yr ydych wedi'u rhoi i gefnogi hynny, ac a fyddwch chi neu eich swyddogion yn cyfarfod â rhai o'r sefydliadau dan sylw i sicrhau bod y rhanbarth cyfan a Chymru gyfan yn elwa o hyn?

**Alun Pugh:** Yr ydym yn cefnogi pob math o ddigwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon. Mae digwyddiadau arwyddocaol, fel sicrhau bod gemau terfynol y Cwpan FA yn digwydd yng Nghaerdydd, wedi cael effaith enfawr ar ddatblygiad economaidd y rhan honno o Gymru, ac yr ydym hefyd yn noddi amrywiaeth o ddigwyddiadau llai o faint. Cânt i gyd eu hasesu yn erbyn cynlluniau busnes, i weld pa lefel o fuddsoddiad cyhoeddus sydd ei angen, a'r manteision i Gymru o'r digwyddiad hwnnw. Fodd bynnag, byddwn yn fodlon i swyddogion, o leiaf yn y lle cyntaf, gyfarfod â'ch etholwyr.

### **'Dringo'n Uwch' 'Climbing Higher'**

**Q2 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on progress towards achieving the Welsh Assembly Government's 'Climbing Higher' strategy's goals? OAQ1163(CWS)

**Alun Pugh:** We are making steady progress in our efforts to reach the targets set in 'Climbing Higher'. Our Sports Council for Wales reports that, since 2002-03, levels of adult physical activity—which is a key part of the 'Climbing Higher' strategy—have increased by 4 per cent. That is bang in line with the target, and shows that the considerable investment that the Welsh Assembly Government is making in these initiatives is beginning to make a difference.

**Carl Sargeant:** In 'Climbing Higher' we have set some very ambitious targets; we want 40 per cent of adults and 80 per cent of

**C2 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at gyflawni nodau strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Dringo'n Uwch'? OAQ1163(CWS)

**Alun Pugh:** Yr ydym yn gwneud cynnydd cyson yn ein hymdrechion i gyrraedd y targedau a bennwyd yn 'Dringo'n Uwch'. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn dweud, er 2002-03, fod lefelau gweithgarwch corfforol oedolion—sy'n rhan allweddol o'r strategaeth 'Dringo'n Uwch'—wedi cynyddu 4 y cant. Mae hynny'n unol â'r targed, ac yn dangos bod y buddsoddiad sylweddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud yn y mentrau hyn yn dechrau gwneud gwahaniaeth.

**Carl Sargeant:** Yn 'Dringo'n Uwch', yr ydym wedi pennu rhai targedau uchelgeisiol iawn; yr ydym am weld 40 y cant o oedolion

children to be members of sports clubs or centres, and we want to increase the amount and frequency of activity undertaken by people across Wales. These are impressive challenges. Does the Minister agree that the key to achieving these targets is to cultivate a wide and exciting range of sport and recreation activities? If so, do you agree that we should offer every support to local members and people who wish to develop sport and recreation facilities in their areas? Will the Minister make a commitment to meeting with a group of constituents in my constituency of Alyn and Deeside who would like to set up a bowling facility there?

**Alun Pugh:** I have read a bit about the bowling facility, and I would be happy to meet you and your constituents to discuss it in more detail. I also wish to say that the 'Climbing Higher' document has some very demanding targets. We do indeed wish to see membership of sports clubs grow, and we are absolutely determined to increase levels of physical activity in Wales, because we are not going to operate our way to the better health standards in Wales that we all wish to see.

**William Graham:** You will know that there have been reports recently that physical inactivity in Wales costs more than £500 million a year. What new strategies are you able to develop to entice those whose habits need changing?

**Alun Pugh:** I see all sorts of different figures that attempt to quantify the cost of inactivity. The figure that you have quoted is towards the top end of the range. However, I do not think that anyone is in any doubt that the figures are certainly in the tens of millions of pounds, even for just the direct health costs. When you add the indirect costs, you are indeed talking about hundreds of millions of pounds. We have no new strategy; we have an existing strategy, 'Climbing Higher', backed by a considerable amount of Assembly Government investment. It is still very early days, because it is a 20-year plan. However, the investment that we are making in flagship programmes, such as the free swimming programme, as I just said to Carl, is already bearing fruit.

ac 80 y cant o blant yn aelodau o glybiau neu ganolfannau chwaraeon, ac yr ydym am gynyddu swm ac amllder gweithgarwch pobl ledled Cymru. Mae'r rhain yn heriau da iawn. A yw'r Gweinidog yn cytuno mai'r hyn sy'n allweddol er mwyn cyrraedd y targedau hyn yw meithrin amrywiaeth eang a chyffrous o chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, a gytunwch y dylem gynnig pob cefnogaeth i aelodau lleol a phobl sydd am ddatblygu cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn eu hardaloedd? A wnaiff y Gweinidog ymrwymiad i gyfarfod â grŵp o etholwyr yn fy etholaeth yn Alun a Glannau Dyfrdwy a fyddai'n hoffi sefydlu cyfleuster bowlio yno?

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi darllen ychydig am y cyfleuster bowlio, a byddem yn fwy na pharod i gyfarfod â chi a'ch etholwyr i'w drafod yn fanylach. Hefyd, hoffwn ddweud bod rhai targedau heriol iawn yn y ddogfen 'Dringo'n Uwch'. Yr ydym, yn wir, am weld aelodaeth clybiau chwaraeon yn tyfu, ac yr ydym yn benderfynol o godi lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru, oherwydd nid drwy lawdriniaeth y byddwn yn sicrhau'r safonau iechyd gwell yng Nghymru yr ydym i gyd am eu gweld.

**William Graham:** Fe wyddoch fod adroddiadau'n ddiweddar fod anweithgarwch corfforol yng Nghymru yn costio dros £500 miliwn y flwyddyn. Pa strategaethau newydd y gallwch eu datblygu i annog y rheini y mae angen newid eu harferion?

**Alun Pugh:** Gwelaf bob math o ffigurau gwahanol sy'n ceisio mesur cost anweithgarwch. Mae'r ffigur a ddyfynnwyd gennych chi yn agos at frig yr ystod. Fodd bynnag, ni chredaf fod neb yn amau bod y ffigurau'n sicr yn ddegau o filiynau o bunnoedd, ar gyfer y costau iechyd uniongyrchol yn unig. Pan ychwanegwch y costau anuniongyrchol, yr ydych yn sôn am gannoedd o filiynau o bunnoedd. Nid oes gennym strategaeth newydd; mae gennym strategaeth sydd eisoes yn bod, sef 'Dringo'n Uwch', a gefnogir gan fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad. Megis dechrau y mae'r cynllun o hyd, gan ei fod yn gynllun 20 mlynedd. Fodd bynnag, mae ein buddsoddiad mewn rhaglenni blaenllaw, megis y rhaglen nofio am ddim, fel y dywedais wrth Carl, eisoes yn dwyn



ffrwyth.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ1175(CWS), is transferred for written answer by the Minister for Enterprise, Innovation and Networks.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 3, OAQ1175(CWS), i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

### **Cynlluniau Nofio am Ddim Free Swimming Initiatives**

**Q4 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on the free swimming initiatives? OAQ1141(CWS)

**C4 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mentrau nofio am ddim? OAQ1141(CWS)

**Alun Pugh:** The Assembly Government's free swimming scheme is the only national scheme in western Europe. The full impact of the scheme will be presented in a final evaluation report in July 2007, but both schemes, for children and pensioners, continue to have a positive impact on swimming participation levels across the nation.

**Alun Pugh:** Y cynllun nofio am ddim gan Lywodraeth y Cynulliad yw'r unig gynllun cenedlaethol yng ngorllewin Ewrop. Caiff effaith lawn y cynllun ei chyflwyno mewn adroddiad gwerthuso terfynol ym mis Gorffennaf 2007, ond mae'r ddau gynllun, ar gyfer plant a phensiynwyr, yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar niferoedd y bobl ledled y wlad sy'n nofio.

**Mark Isherwood:** Bearing that in mind, what action do you propose to address the problems with the free swimming initiative that were raised by the Association of Independent Swimming Pools at the recent launch in the Assembly of the Institute for Sport, Parks and Leisure, ISPAL. It identified problems such as funding being based on population per county, when the population in many areas doubles during the summer, cross-border issues between local authorities, and the lack of help for the independent and private sector, and stated that it needed more support if it is to continue to provide the scheme.

**Mark Isherwood:** Gan gadw hynny mewn cof, pa gamau gweithredu a gynigiwch i fynd i'r afael â'r problemau'n gysylltiedig â'r fenter nofio am ddim a godwyd gan y Gymdeithas Pyllau Nofio Annibynnol wrth lansio'r Sefydliad Chwaraeon, Parciau a Hamdden (ISPAL) yn y Cynulliad yn ddiweddar. Soniai am broblemau seilio cyllid ar y boblogaeth fesul sir, pan fydd y boblogaeth mewn llawer ardal yn dyblu yn ystod yr haf, materion trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol, a'r diffyg cymorth i'r sector annibynnol a'r sector preifat. A dywedodd fod arno angen mwy o gymorth os yw i barhau i ddarparu'r cynllun.

**Alun Pugh:** You talk of problems, but the free swimming scheme has been an enormous popular success. You need only look at the way that the participation levels have risen, particularly in the more socially deprived parts of Wales. As far as the distribution arrangements are concerned, the additional public investment in swimming is distributed in full consultation with the Welsh Local Government Association.

**Alun Pugh:** Yr ydych yn siarad am broblemau, ond mae'r cynllun nofio am ddim wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Does ond angen ichi edrych ar y ffordd y mae'r niferoedd sy'n nofio wedi cynyddu, yn enwedig yn yr ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru. O ran y trefniadau dyrannu, caiff y buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol mewn nofio ei ddyrannu drwy ymgynghori'n llawn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Ann Jones:** I acknowledge that the free swimming scheme has been fantastic. However, do you share my disappointment that, once again, Denbighshire County

**Ann Jones:** Cydnabyddaf fod y cynllun nofio am ddim wedi bod yn wych. Fodd bynnag, a ydych chi, fel finnau, yn siomedig fod Cyngor Sir Ddinbych, unwaith eto, wedi

Council has failed to allow all children across Denbighshire to have a free swim during the recent Christmas holidays? In fact, it closed all the centres for the two-week period, citing maintenance as an excuse. It stopped an awful lot of children taking advantage of free swimming. Would you talk to Denbighshire County Council about how it carries out its maintenance programme, so that our children are not disadvantaged in this free swimming initiative, which is benefiting everyone else?

**Alun Pugh:** Sometimes, emergency maintenance is required, but I would certainly like to ask local authorities across Wales to plan their maintenance programmes to be carried out at the quietest times of the year in order that opportunities during school holidays are maximised.

2.50 p.m.

**Elin Jones:** Dilynaf yr un trywydd â Mark Isherwood. Mae problemau penodol ynglŷn â'r cynllun nofio am ddim o ran pyllau annibynnol neu gymunedol—mae pump o'r chwe phwll yng Ngheredigion, er enghraifft, yn byllau cymunedol—sy'n deillio o'r system ariannu, pa un a yw hynny o ran problemau llif arian, neu broblemau yn ôl sut y caiff yr arian ei ddyrannu o fewn y cyngor sir.

Derbyniais ddeiseb yn ddiweddar oddi wrth griw o bensynwyr yn Llanbedr Pont Steffan sy'n mwynhau eu cynllun nofio am ddim yn fawr, ond sydd maent yn wynebu colli'r cynllun hwnnw ym mhwill nofio cymunedol Llanbedr Pont Steffan oherwydd y strwythur ariannol hwn. A ydych yn barod i ystyried y materion hyn ynglŷn â phyllau annibynnol, lle mae'r strwythur ariannol yn golygu ei bod yn anodd i rai o'r pyllau nofio barhau â'r cynllun ar hyn o bryd?

**Alun Pugh:** Ysgrifennaf atoch ynglŷn â hynny. Mae'r fformiwla lleol yn fater i awdurdodau lleol.

methu â chaniatáu i bob plentyn ledled sir Ddinbych gael nofio am ddim yn ystod gwyliau'r Nadolig yn ddiweddar? Yn wir, caeodd bob canolfan am y pythefnos hwnnw, gan sôn am waith cynnal a chadw fel esgus. Rhwystrodd lawer iawn o blant rhag manteisio ar y cynllun nofio am ddim. A fydddech yn fodlon siarad â Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r ffordd y mae'n cyflawni ei raglen cynnal a chadw, fel na fydd ein plant dan anfantais yn y fenter nofio am ddim hon, sydd o fudd i bawb arall?

**Alun Pugh:** Weithiau bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar frys, ond fe hoffwn ofyn i awdurdodau lleol ledled Cymru drefnu eu rhaglenni cynnal a chadw ar gyfer cyfnodau tawelaf y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn ystod gwyliau ysgol.

**Elin Jones:** I will take the same tack as Mark Isherwood. There are specific problems with the free swimming scheme in relation to independent or community pools—five out of the six pools in Ceredigion, for example, are community pools—arising out of the funding system, whether in terms of cash flow problems or problems regarding the way the money is distributed within the county council.

I received a petition recently from a group of pensioners in Lampeter who greatly enjoy their free swimming scheme, but who face losing that scheme at Lampeter community swimming pool because of this financial structure. Are you prepared to consider these matters relating to independent pools, where the financial structure means that it is difficult for some swimming pools to continue with the scheme at present?

**Alun Pugh:** I will write to you about that. The local formula is a matter for local authorities.

### **Annog Cyfraniad mewn Chwaraeon Encouraging Participation in Sport**

**Q5 Denise Idris Jones:** Will the Minister **C5 Denise Idris Jones:** A wnaiff y

make a statement about encouraging participation in sport? OAQ1148(CWS)

**Alun Pugh:** Our plans for raising participation levels in sport in Wales are set out in the 'Climbing Higher: Next Steps' document. This sets out our framework for action and areas for investment that will help us to achieve our aim of making Wales a healthier nation and a competitive force on the world stage.

**Denise Idris Jones:** Will you join me in congratulating Tŷ Hapus—which is to be found in the Tudno ward in Llandudno—which has succeeded in obtaining grant funding to encourage self discipline in young people, and give young people a focus in the evenings through boxing and self-defence training, in partnership with the local Communities First partnership?

**Alun Pugh:** I am happy to do that. The Tudno ward is just around the corner from one of my old haunts—I know the area well. There have been many positive developments in that area, and in Llandudno more generally. I am looking forward to visiting the site of the new north Wales regional pool, which will be opened in October or November this year.

**Eleanor Burnham:** You may remember, Minister, that I asked you a few weeks ago about the lack of sporting facilities in north Wales. I commended Flintshire County Council, because it did its best to provide netball facilities for the Wales versus South Africa netball match. However, as you will remember, half the spectators could not get in to see that match, including a member of my staff and her terribly disappointed young daughter, who is a keen netball player. What exactly will you do? It seems a sensible notion to get us all off our couches, and we all try our best to be as fit as possible. However, how will you encourage people to take part in sports, or to spectate and then take a keen interest, if they cannot get into some of the facilities that are lamentably, or woefully, inadequate?

Gweinidog ddatganiad am annog cyfranogiad mewn chwaraeon? OAQ1148(CWS)

**Alun Pugh:** Mae ein cynlluniau ar gyfer cynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru wedi eu gosod allan yn y ddogfen 'Dringo'n Uwch: y Camau Nesaf'. Mae'n amlinellu ein fframwaith ar gyfer gweithredu a'r meysydd i fuddsoddi ynddynt a fydd yn ein helpu i gyrraedd ein nod o wneud Cymru'n wlad iachach ac yn rym cystadleuol yn fyd-eang.

**Denise Idris Jones:** A ymunwch â mi i longyfarch Tŷ Hapus—yn ward Tudno yn Llandudno—sydd wedi llwyddo i gael arian grant i annog hunanddisgyblaeth ymhlith pobl ifanc, ac i roi ffocws i bobl ifanc gyda'r nos drwy hyfforddiant paffio a hunanamddiffyn, mewn partneriaeth â'r bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol?

**Alun Pugh:** Yr wyf yn fodlon gwneud hynny. Mae ward Tudno yn agos iawn i'm hen gynefin—yr wyf yn adnabod yr ardal yn dda. Bu llawer o ddatblygiadau cadarnhaol yn yr ardal honno, ac yn Llandudno yn gyffredinol. Yr wyf yn edrych ymlaen at ymweld â safle pwll rhanbarthol newydd y gogledd, a gaiff ei agor fis Hydref neu fis Tachwedd eleni.

**Eleanor Burnham:** Efallai y byddwch yn cofio, Weinidog, imi eich holi rai wythnosau'n ôl ynglŷn â phrinder cyfleusterau chwaraeon yn y gogledd. Canmolais Gyngor Sir y Fflint am iddo wneud ei orau i ddarparu cyfleusterau pêl-rwyd ar gyfer y gêm bêl-rwyd rhwng Cymru yn erbyn De Affrica. Fodd bynnag, fel y byddwch yn cofio, ni allai hanner y bobl fynd i mewn i wyllo'r gêm, gan gynnwys aelod o'm staff a'i merch ifanc i, sy'n chwarae pêl-rwyd yn frwd, a oedd yn hynod siomedig. Beth yn union a wnewch? Mae'n ymddangos yn gysyniad synhwyrol i'n gwneud yn weithgar, ac yr ydym i gyd yn gwneud ein gorau glas i fod mor heini â phosibl. Fodd bynnag, sut y byddwch yn annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, neu i'w gwyllo ac yna ymddiddori ynddynt, os na allant gael mynediad i rai o'r cyfleusterau sydd, yn anffodus, neu'n resynus, yn annigonol?

**Alun Pugh:** As I have explained, the Assembly Government has made a major investment, certainly in participation in sport. However, as I said to you a few weeks ago, sometimes, regrettably, not all spectators can get in to every sporting event that they would like to see. That is true for netball, rugby, and other sporting events.

**Eleanor Burnham:** That is rather feeble, Minister, if you do not mind my saying so. You are not talking about one or two people who could not get access to this wonderful international match, which was very exciting; you are talking about 200 or 300. I know that you are doing your best, but many leisure facilities and leisure centres are coming to the end of their useful lives. What exactly will you do, and how much money will you put into all these facilities?

**Alun Pugh:** You used the word ‘feeble’—I think that that is inappropriate. Many thousands of people cannot get rugby tickets, for example, although that may change in the future.

**Alun Pugh:** Fel yr wyf wedi ei egluro, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud buddsoddiad mawr, yn enwedig ym maes cymryd rhan mewn chwaraeon. Fodd bynnag, fel y dywedais wrthyich rai wythnosau'n ôl, yn anffodus, weithiau, ni fydd pawb yn gallu cael mynediad i wyllo digwyddiad chwaraeon y byddent yn hoffi ei weld. Mae hynny'n wir am bêl-rwyd, rygbi, a digwyddiadau chwaraeon eraill.

**Eleanor Burnham:** Mae hynny braidd yn wan, Weinidog, os maddeuwch imi am ddweud hynny. Nid ydych yn sôn am un neu ddau o bobl na fu'n bosibl iddynt gael mynediad i'r gêm ryngwladol ardderchog hon, a oedd yn un gyffrous iawn; yr ydych yn sôn am tua 200 neu 300. Gwn eich bod yn gwneud eich gorau, ond mae llawer o gyfleusterau a chanolfannau hamdden yn nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Beth yn union a wnewch, a faint o arian a fuddsoddwch yn yr holl gyfleusterau hyn?

**Alun Pugh:** Defnyddiwyd y gair ‘gwan’ gennych—credaf fod hynny'n amhriodol. Ni all miloedd o bobl gael tocynnau rygbi, er enghraifft, er y gallai hynny newid yn y dyfodol.

### Siaradwyr Cymraeg Welsh Speakers

**C6 Glyn Davies:** Beth yw targed y Gweinidog ar gyfer canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2010? OAQ1155 (CWS)

**Alun Pugh:** There is no particular target for 2010, but the target in ‘Iaith Pawb’ is to increase the percentage of people in Wales who are able to speak both our national languages to 25 per cent by the time of the next census, 2011. That would be an increase of around 5 percentage points on the last census.

**Glyn Davies:** Un cam ymlaen a all gryfhau'r iaith yng Nghymru, a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, yw Deddf iaith newydd a fyddai'n rhoi mwy o hawliau i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r gwrthbleidiau i gyd yn cefnogi'r syniad o gael Deddf newydd. Pam ydych yn parhau i wrthod

**Q6 Glyn Davies:** What is the Minister's target for the percentage of Welsh speakers in Wales by 2010? OAQ1155(CWS)

**Alun Pugh:** Nid oes targed penodol ar gyfer 2010, ond y targed yn ‘Iaith Pawb’ yw cynyddu canran y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad ein hieithoedd cenedlaethol i 25 y cant erbyn y cyfrifiad nesaf, sef 2011. Byddai hynny'n gynnydd o tua 5 pwynt canran o'i gymharu â'r cyfrifiad diwethaf.

**Glyn Davies:** One step forward that can strengthen the language in Wales, and increase the number of Welsh speakers, is a new language Act that would give Welsh speakers more rights in Wales. All the opposition parties support the idea of having a new Act. Why do you continue to oppose

hynny?

**Alun Pugh:** We have always said that we are prepared to look at a review of language legislation. We will need new language legislation to merge the Welsh Language Board into the Assembly Government and in order to create the statutory post of the dyfarnydd. That post will have important responsibilities in relation to the Welsh language. Therefore, there is agreement that there needs to be some sort of legislative change. What we do not have is consensus on the detail of that legislative change. I am not convinced that there needs to be a major growth in legislation to cover companies operating largely in the private sector. However, we are prepared to look at the whole legislative situation when we review 'Iaith Pawb' next year.

**Owen John Thomas:** Cyflwynwyd 'Iaith Pawb' bedair blynedd yn ôl, yn Chwefror 2003. Yr ydych newydd ddweud eich bod am gyrraedd canran o 25 y cant. Mae hynny'n golygu 140,000 o Gymry Cymraeg ychwanegol—hynny yw, cynnydd o 14,000 y flwyddyn. Pa gamau ydych wedi eu cymryd yn ystod y pedair blynedd diwethaf i wneud hyn? Pwy sy'n monitro hyn? Beth ydych yn bwriadu ei wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed erbyn 2011?

**Alun Pugh:** You asked what we have done and who is monitoring this. I will tell you what we have done: we have made a record investment in the Welsh language, we have seen a major emphasis on encouraging parents who are bilingual to bring up their children in both our national languages, and there is encouragement for Welsh-medium education. You asked who is monitoring the Welsh language: we all are. We have an annual debate on 'Iaith Pawb' in the Chamber. You are a member of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, and I do not think that a month goes by without there being a discussion of 'Iaith Pawb' targets.

**Owen John Thomas:** Yr wyf yn siomedig iawn gyda'ch ateb. Mae awdurdod Casnewydd wedi cynnal arolwg ymhlith rhieni i ddarganfod lefel y galw am addysg

that?

**Alun Pugh:** Yr ydym wedi dweud erioed ein bod yn barod i ystyried adolygu'r deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Bydd arnom angen deddfwriaeth iaith newydd i uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â Llywodraeth y Cynulliad ac i greu swydd statudol y dyfarnydd. Bydd gan y swydd honno gyfrifoldebau pwysig o ran yr iaith Gymraeg. Felly, mae cytundeb bod angen rhyw fath o newid deddfwriaethol. Yr hyn sydd ar goll yw consensws o ran manylion y newid deddfwriaethol hwnnw. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen cynyddu'r deddfwriaeth yn sylweddol er mwyn cynnwys cwmnïau sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector preifat. Fodd bynnag, yr ydym yn barod i edrych ar y sefyllfa deddfwriaethol gyfan wrth adolygu 'Iaith Pawb' y flwyddyn nesaf.

**Owen John Thomas:** 'Iaith Pawb' was introduced four years ago, in February 2003. You have just said that you want to reach a percentage of 25 per cent. That means 140,000 additional Welsh speakers—that is, an increase of 14,000 a year. What steps have you taken during the past four years to do this? Who is monitoring this? What do you intend to do to ensure that we reach the target by 2011?

**Alun Pugh:** Yr oeddech yn gofyn beth yr ydym wedi ei wneud a phwy sy'n monitro hyn. Dyma i chi yr hyn yr ydym wedi ei wneud: yr ydym wedi buddsoddi'r swm mwyaf erioed yn yr iaith Gymraeg, yr ydym wedi gweld pwyslais mawr ar annog rhieni dwyieithog i fagu eu plant yn ein dwy iaith genedlaethol, ac mae anogaeth i addysg Gymraeg. Yr oeddech yn gofyn pwy sy'n monitro'r iaith Gymraeg: yr ydym i gyd yn gwneud hynny. Byddwn yn cael trafodaeth ar 'Iaith Pawb' yn y Siambr bob blwyddyn. Yr ydych yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ac ni chredaf fod mis yn mynd heibio heb drafodaeth am dargedau 'Iaith Pawb'.

**Owen John Thomas:** I am very disappointed with your answer. Newport authority has made a survey of parents to establish the level of demand for Welsh-medium

cyfrwng Cymraeg. Mae'r galw ddwywaith yn fwy na'r ddarpariaeth bresennol. Pe baech, gyda'r Gweinidog wrth eich ochr, yn mynd ati i gael y siroedd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth, ac ein bod yn gweld yr un math o ymateb, byddech yn dechrau dod yn agos at gyflawni'ch targed o gael 140,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol erbyn 2011.

**Alun Pugh:** I am very pleased with some of the linguistic developments that are taking place in Newport. It is great to see, in areas such as Newport—areas which have not traditionally been strongholds for the Welsh language—parents who do not speak Welsh putting their children into Welsh-medium education and recognising its advantages. Jane Davidson and I are very keen to encourage local education authorities the length and breadth of the nation to respond positively to the growing demand for Welsh-medium education and to survey parents on their attitudes.

**Lisa Francis:** One of the targets—'aspirations' would be a more accurate description—of 'Iaith Pawb' is to arrest the decline in the number of communities where Welsh is spoken by over 70 per cent of the population. This means making adequate plans for the Welsh language. In order to make those plans, do you agree that it would make sense for legislation in Wales to ensure that there was a statutory obligation for public sector organisations to furnish the Welsh Language Board with information that would then be part of any future research into language planning?

**Alun Pugh:** Under the current legislation, public bodies have statutory obligations in respect of language schemes. We are very clear on that. Those schemes are reviewed. You talked about changes in the balance of Welsh speakers; what we are seeing is that in areas such as Newport, which Owen John talked about a minute ago, and Cardiff and Swansea, there is growth in the Welsh language, but there are specific challenges in the heartland. That is largely down to economic development issues and I know that Andrew Davies is working hard, particularly on convergence funding, to ensure that those communities have a strong

education. The demand is double the current provision. If you, with the Minister alongside you, were to try to get the other counties in Wales to do likewise, and if we found the same kind of response, you would begin to come close to reaching your target of getting 140,000 additional Welsh speakers by 2011.

**Alun Pugh:** Yr wyf yn hapus iawn am rai o'r datblygiadau ieithyddol sy'n digwydd yng Nghasnewydd. Mae'n wych i'w gweld, mewn ardaloedd fel Casnewydd—ardaloedd nad ydynt yn draddodiadol wedi bod yn gadarnleoedd y Gymraeg—fod rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhoi eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cydnabod ei manteision. Mae Jane Davidson a minnau'n awyddus iawn i annog awdurdodau addysg lleol ar hyd a lled y wlad i ymateb yn gadarnhaol i'r galw cynyddol am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud arolwg o agweddau rhieni.

**Lisa Francis:** Un o'r targedau—byddai 'dyheadau' yn ddisgrifiad mwy cywir—yn 'Iaith Pawb' yw atal y dirywiad yn nifer y cymunedau lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn golygu gwneud cynlluniau digonol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Er mwyn gwneud y cynlluniau hynny, a gytunwch y byddai'n gwneud synnwyr i ddeddfwriaeth yng Nghymru sicrhau bod rhwymedigaeth statudol ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a fyddai'n cael ei defnyddio wedyn fel rhan o unrhyw waith ymchwil yn y dyfodol ar gynllunio ieithyddol?

**Alun Pugh:** O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae gan gyrff cyhoeddus rwymedigaethau statudol o ran cynlluniau iaith. Yr ydym yn glir iawn am hynny. Caiff y cynlluniau hynny eu hadolygu. Yr oeddech yn sôn am newidiadau yn y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg; yr hyn a welwn yw mewn ardaloedd megis Casnewydd y soniodd Owen John amdanynt funud yn ôl, a Chaerdydd ac Abertawe, yw fod twf yn yr iaith Gymraeg. Ond mae yna heriau penodol yn y fro Gymraeg, a hynny'n bennaf oherwydd materion datblygu economaidd, a gwn fod Andrew Davies yn gweithio'n galed, yn enwedig o ran arian cydgyfeirio, i sicrhau

and sustainable future.

bod gan y cymunedau hynny ddyfodol cryf a chynaliadwy.

3.00 p.m.

**Lisa Francis:** You have stayed away from my actual question to you. In the future, you presumably still intend to abolish the Welsh Language Board. Can you tell me specifically how that is meant to be of advantage to the Welsh language, and to the achievement of the objectives of 'Iaith Pawb'?

**Lisa Francis:** Yr ydych wedi cadw'n glir o'm cwestiwn ichi. Yn y dyfodol, mae'n debygol ei fod yn fwrdd o hyd gennych ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. A allech ddweud wrthyf yn benodol sut y bydd hynny o fantais i'r iaith Gymraeg, a sut y bydd yn cyflawni amcanion 'Iaith Pawb'?

**Alun Pugh:** We have been very clear that we intend to merge the Welsh Language Board with the Assembly Government. That is not in isolation, it is part of the whole programme of the Assembly Government to increase democratic accountability, and to end the quango state. Merging the Welsh Language Board into Government, and mainstreaming expertise on the Welsh language across Government will be a big step forward, not a big step back.

**Alun Pugh:** Yr ydym wedi bod yn glir iawn ein bod yn bwriadu uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â Llywodraeth y Cynulliad. Nid yw hynny'n digwydd ar ei ben ei hun, mae'n rhan o raglen gyfan Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu atebolrwydd democrataidd, ac i ddod â'r wladwriaeth gwango i ben. Bydd uno Bwrdd yr Iaith â'r Llywodraeth, a phrifffrydio arbenigedd ar y Gymraeg ar draws y Llywodraeth, yn gam mawr ymlaen, nid yn gam yn ôl.

### **Buddsoddi Diwylliannol Cultural Investment**

**Q7 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on cultural investment in Mid and West Wales? OAQ1159(CWS)

**C7 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi diwylliannol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ1159(CWS)

**Alun Pugh:** The Welsh Assembly Government has made, and is continuing to make, a significant cultural investment in Mid and West Wales. For example, £28 million in capital grants has been awarded to arts organisations in that area since 1995.

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud buddsoddiad diwylliannol sylweddol yn y canolbarth a'r gorllewin ac y mae'n parhau i wneud hynny. Er enghraifft, mae £28 miliwn mewn grantiau cyfalaf wedi eu rhoi i sefydliadau celfyddydol yn yr ardal honno er 1995.

**Helen Mary Jones:** You will be aware of the plans by Carmarthenshire County Council and a range of partners to develop a new and innovative arts centre in Llanelli—the working title of the project is 'The Works'—to include a 500-seat theatre, dance studio, cinema and gallery. Will you commit today to giving all the support that you can from the Welsh Assembly Government to ensure that this valuable project, which also has a big regeneration potential, comes to fruition?

**Helen Mary Jones:** Byddwch yn ymwybodol o'r cynlluniau gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu canolfan gelfyddydau newydd ac arloesol i'r celfyddydau yn Llanelli—teitl dros dro y prosiect yw 'Y Gwaith'—i gynnwys theatr â 500 o seddi, stiwdio ddawns, sinema ac oriel. A ymrwymwch chi heddiw i roi'r holl gymorth posibl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y bydd y prosiect gwerthfawr hwn, sydd hefyd â photensial adfywio mawr, yn dwyn ffrwyth?

**Alun Pugh:** Catherine Thomas, the local Assembly Member for Llanelli, has told me about many of the very interesting and exciting arts and culture developments in that town. We want to encourage this throughout the length and breadth of Wales, but, clearly, all applications are judged against their business plans.

**Christine Gwyther:** Culture comes in many forms, and my constituents in Pembroke Dock, and further along the Milford Haven waterway, are proud of our military history. You were good enough to meet with some of my constituents, who are trying to raise a sunken Sunderland from the middle of the Milford Haven waterway. Will you continue to support their efforts to do that, and, hopefully, to add to the growing interest in military artefacts in my area?

**Alun Pugh:** You are right to say that there is a proud tradition of military service in your constituency. The project to raise the Sunderland is very interesting and exciting. There are very few examples of these aircraft available in museums anywhere in the world. They played a huge part in the defence of the United Kingdom during the second world war. It is a very interesting project indeed. There are huge and formidable technical difficulties involved, but I know that your constituents are hugely enthusiastic about doing it.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Can the Minister update us on what support he is giving to theatre in Mid and West Wales, and touring theatre particularly? I refer to the Torch Theatre, and to the scheduled official reopening of Theatr Powys, into which the Arts Council of Wales and Powys County Council have put money. However, what is the Minister doing to support touring theatre, specifically, in Mid and West Wales?

**Alun Pugh:** You are right to point out that there has been major capital investment in the Torch Theatre. It is an important producing house as well as a receiving house. Your area is certainly benefiting from the £2 million arts outside Cardiff fund that the Welsh Assembly Government has put into effect.

**Alun Pugh:** Mae Catherine Thomas, Aelod Cynulliad lleol Llanelli, wedi sôn wrthyf am nifer o ddatblygiadau celfyddydol a diwylliannol diddorol a chyffrous iawn yn y dref honno. Yr ydym yn awyddus i annog hyn ledled Cymru, ond yn amlwg, caiff pob cais ei benderfynu yn erbyn eu cynlluniau busnes.

**Christine Gwyther:** Mae yna lawer math o ddiwylliant, ac mae fy etholwyr i yn Noc Penfro, ac ymhellach i lawr ddyfrffordd Aberdaugleddau, yn falch o'n hanes milwrol. Buoch cystal â chyfarfod â rhai o'm hetholwyr, sy'n ceisio codi awyren Sunderland a suddodd o ganol dyfrffordd Aberdaugleddau. A wnewch chi barhau i gefnogi eu hymdrechion i wneud hynny, ac ychwanegu, gobeithio, at y diddordeb cynyddol mewn arteffactau milwrol yn fy ardal?

**Alun Pugh:** Yr ydych yn iawn i ddweud bod traddodiad clodwiw o wasanaeth milwrol yn eich etholaeth. Mae'r prosiect i godi'r Sunderland yn un diddorol a chyffrous iawn. Ychydig iawn o enghreifftiau o'r awyrennau hyn sydd ar gael mewn amgueddfeydd mewn unrhyw ran o'r byd. Yr oedd iddynt ran hollbwysig yn y gwaith o amddiffyn y Deyrnas Unedig yn ystod yr ail ryfel byd. Mae'n brosiect diddorol iawn yn wir. Mae anawsterau technegol enfawr ac arswydus ynghlwm wrth y prosiect, ond gwn fod eich etholwyr yn frwdfrydig iawn i wneud hynny.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cymorth y mae'n ei roi i'r theatr yn y canolbarth a'r gorllewin, a theatr deithiol yn arbennig? Cyfeiriaf at Theatr y Torch, a'r bwriad i ailagor yn swyddogol Theatr Powys y cyfrannodd Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Powys ati. Fodd bynnag, beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi theatr deithiol, yn benodol, yn y canolbarth a'r gorllewin?

**Alun Pugh:** Yr ydych yn iawn i egluro bod buddsoddiad cyfalaf enfawr wedi ei wneud yn Theatr y Torch. Mae'n dŷ cynhyrchu pwysig yn ogystal â thŷ derbyn. Mae eich ardal yn sicr yn elwa o'r gronfa o £2 filiwn i'r Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd sydd wedi ei rhoi ar waith gan Lywodraeth



Cynulliad Cymru.

**Kirsty Williams:** One venue that did not benefit from arts outside Cardiff money was the Wyeside Arts Centre at Built Wells, which I am sure you will agree is a strategically important venue, providing cinema, gallery and live performance space. The arts council has admitted that there is a shortfall in funding for that particular venue. All partners need to work together to ensure that there is a sustainable future for Wyeside. Will you or your officials ensure that the right conversations take place between the arts council, Powys County Council and your department, to ensure that my constituents continue to enjoy the Wyeside venue?

**Alun Pugh:** I know the Wyeside theatre well—I have visited it and driven past it on many occasions on my way home, perched as it is on the corner of the A470. I can clearly remember the Liberal Democrats in previous debates saying, ‘Minister, under no circumstances should you intervene in these sorts of artistic decisions’; however, I will certainly bring the content of this afternoon’s Record to the attention of the Arts Council of Wales.

**Kirsty Williams:** Un lleoliad nad yw wedi cael arian y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd yw Canolfan Celfyddydau Glannau Gwy yn Llanfair-ym-Muallt. Mae’n fan strategol bwysig, fe gytunwch mae’n siŵr, ac yn un sy’n darparu sinema, oriel a man ar gyfer perfformiadau byw. Mae cyngor y celfyddydau wedi cyfaddef bod diffyg arian ar gyfer y man penodol hwnnw. Mae angen i bob partner gydweithio i sicrhau bod dyfodol cynaliadwy i Lannau Gwy. A wnewch chi neu eich swyddogion sicrhau y bydd y trafodaethau priodol rhwng cyngor y celfyddydau, Cyngor Sir Powys a’ch adran, i sicrhau y bydd fy etholwyr yn dal i fwynhau lleoliad Glannau Gwy?

**Alun Pugh:** Yr wyf yn gyfarwydd iawn â theatr Glannau Gwy—yr wyf wedi ymweld â hi ac wedi gyrru heibio iddi droeon ar fy ffordd adref, ar gornel yr A470. Cofiaf yn glir y Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud mewn dadleuon blaenorol, ‘Weinidog, peidiwch o dan unrhyw amgylchiadau ag ymyrryd yn y mathau hyn o benderfyniadau artistig’; fodd bynnag, byddaf yn bendant yn tynnu sylw Cyngor Celfyddydau Cymru at gynnwys Cofnod y prynhawn yma.

### Gweithgareddau Diwylliannol Cultural Activities

**Q8 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to improve access to cultural activities in Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ1144(CWS)

**Alun Pugh:** In October last year, I announced £250,000 in capital funding towards the costs of a major feasibility study for a new cultural enterprise centre in Merthyr Tydfil. The initial phase of the project, which includes audience development work, is scheduled to start in the near future.

**Huw Lewis:** I can tell you, from the meetings that I have had in the constituency, that the arts and cultural communities, and those with an interest in these matters in Merthyr and Rhymney, are very excited by

**C8 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol ar gael yn fwy hwylus ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ1144(CWS)

**Alun Pugh:** Ym mis Hydref y llynedd, cyhoeddais £250,000 o arian cyfalaf tuag at gostau astudiaeth ddichonoldeb fawr ar gyfer canolfan fenter ddiwylliannol newydd ym Merthyr Tudful. Bwriedir dechrau cam cyntaf y prosiect, sy’n cynnwys gwaith meithrin cynulleidfaoedd, yn y dyfodol agos.

**Huw Lewis:** Gallaf ddweud wrthyich, o’r cyfarfodydd a gefais yn yr etholaeth, fod y cymunedau celfyddydol a diwylliannol, a’r rheini sydd â diddordeb yn y materion hyn ym Merthyr a Rhymni, yn edrych ymlaen yn

the prospect of what lies ahead. However, could I ask you to keep a close eye on two issues? The first concerns the need for the new cultural artistic centre—whatever we decide to call it when it comes into being—to be an integral part of the physical regeneration of Merthyr town centre; it must not be bolted on just outside the community, but be of the community. The second point is a request for you to look at some of the audience research that, to my mind, has been very pessimistic in terms of what quality art, and particularly performing arts, could bring not just to Merthyr, but to the entire Heads of the Valleys region and further afield. There is some pessimism among the people who are working on this, which they bring to the project, because of their preconceived ideas about what Merthyr is or was, not what Merthyr could be.

**Alun Pugh:** That is a fair point and I will keep a close eye on the development of this project. As you point out, this is not just a showpiece centre for Merthyr Tydfil; it must be an integral part of the regeneration plans for the entire Heads of the Valleys corridor, and we would certainly want all the local authorities in the area to work jointly on their vision, in consultation with voluntary groups and local communities, of exactly what that centre should look like. I think that it is important that it is an all-day centre, that it has long hours of operation, and that we integrate library facilities into it. It is not for me to determine the precise model today, but people should look at the Galeri centre in Caernarfon, which has been a focus of economic development as well as a stage of artistic excellence.

**William Graham:** Minister, you will have noted the recent statistics that demonstrate that the number of adults interested in arts and culture in Merthyr is above the Welsh average—58 per cent against 56 per cent. However, few people beyond the 16 to 34 age group participate in the arts in the area. What initiatives are you proposing to interest other groups?

**Alun Pugh:** We know that there have been

fawr at yr hyn sydd o'u blaenau. Fodd bynnag, a allaf ofyn ichi gadw llygad barcud ar ddau fater? Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r angen i'r ganolfan artistig ddiwylliannol newyddbeth bynnag y penderfynwn ei galw pan ddaw i fodolaeth-fod yn rhan annatod o'r adfywio ffisegol yng nghanol tref Merthyr; rhaid sicrhau na chaiff ei gosod ychydig y tu allan i'r gymuned, ond yn rhan o'r gymuned. Yr ail bwynt yw cais ichi edrych ar ychydig o'r gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd sydd, yn fy marn i, wedi bod yn besimistaidd iawn ynglŷn â'r hyn y gallai celfyddydau o safon, ac yn enwedig celfyddydau perfformio, ei gynnig nid yn unig i Ferthyr, ond i holl ardal Blaenau'r Cymoedd a'r tu hwnt. Mae yna ychydig besimistiaeth ymhlith y bobl sy'n gweithio ar y prosiect, ac maent yn dod â hyn i'r prosiect oherwydd eu rhagdybiaethau am natur Merthyr heddiw neu yn y gorffennol, nid am yr hyn y gallai Merthyr fod.

**Alun Pugh:** Mae hynny'n bwynt teg, a byddaf yn cadw llygad barcud ar ddatblygiad y prosiect hwn. Fel yr ydych yn ei egluro, nid canolfan i'w hedmygu ym Merthyr Tudful yn unig ydyw; rhaid iddi fod yn rhan annatod o'r cynlluniau adfywio ar hyd Blaenau'r Cymoedd, a byddem yn sicr yn awyddus i holl awdurdodau lleol yr ardal gydweithio ar eu gweledigaeth, drwy ymgynghori â grwpiau gwirfoddol a chymunedau lleol, ynglŷn â sut yn union y dylai'r ganolfan edrych. Credaf ei bod yn bwysig iddi fod yn ganolfan sydd ar agor drwy'r dydd, sy'n gweithredu am oriau hir, a'n bod yn sicrhau bod cyfleusterau llyfrgell yn rhan ohoni. Nid fy nyletswydd i yw penderfynu'r union batrwm heddiw, ond dylai pobl edrych ar ganolfan Galeri yng Nghaernarfon, sydd wedi bod yn ganolbwynt i ddatblygu economaidd yn ogystal â llwyfan rhagoriaeth artistig.

**William Graham:** Weinidog, byddwch wedi sylwi ar yr ystadegau'n ddiweddar sy'n dangos bod nifer yr oedolion sydd â diddordeb yn y celfyddydau a diwylliant ym Merthyr yn uwch na chyfartaledd Cymru—58 y cant o'u cymharu â 56 y cant. Fodd bynnag, ychydig o bobl hŷn na'r grŵp oedran 16 i 34 sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau yn yr ardal. Pa fentrau a gynigiwch a fydd o ddiddordeb i grwpiau eraill?

**Alun Pugh:** Gwyddom am gyfraddau

low participation rates in the arts, and in cultural activities more generally, in socially deprived communities. However, it would be a lie to say that people who live in socially deprived communities do not have an interest in these activities. Where you see leadership and public investment, you will see that people respond. Those of us with long memories can remember the voluntary contributions of miners in the south Wales Valleys that were used to stimulate a whole variety of sporting and cultural opportunities—everything from football pitches, in places such as Clydach Vale, to miners' libraries. With a bit of leadership and public investment, people in communities such as Merthyr Tydfil will respond.

cyfranogiad isel yn y celfyddydau, ac mewn gweithgareddau diwylliannol yn gyffredinol, yn y gorffennol mewn cymunedau sy'n gymdeithasol ddifreintiedig. Fodd bynnag, nid yw'n wir dweud nad oes gan bobl sy'n byw mewn cymunedau sy'n gymdeithasol ddifreintiedig ddiddordeb yn y gweithgareddau hyn. Lle mae yna arweiniad a buddsoddiad cyhoeddus, fe welwch fod pobl yn ymateb. Gall y rhai ohonom sydd â chof da gofio cyfraniadau gwirfoddol glowyr yng nghymoedd y de, a oedd arfer ysgogi pob math o gyfleoedd chwaraeon a diwylliannol—popeth o gaeau pêl-droed, mewn lleoedd megis Dyffryn Clydach, i lyfrgelloedd y glowyr. Gydag ychydig arweiniad a buddsoddiad cyhoeddus, bydd pobl mewn cymunedau megis Merthyr Tudful yn ymateb.

### Arian Loteri Lottery Funding

**Q9 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the total anticipated value of lottery funding in Wales for 2006-07? OAQ1152(CWS)

**C9 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfanswm yr arian loteri a ragwelir yng Nghymru ar gyfer 2006-07? OAQ1152(CWS)

**Alun Pugh:** According to current estimates, Wales's share of the lottery funding for good causes in 2006-07 will be in the region of £77.5 million.

**Alun Pugh:** Yn ôl yr amcangyfrifon cyfredol, bydd Cymru'n cael tua £77.5 miliwn o arian loteri ar gyfer achosion da yn 2006-07.

**Peter Black:** As you know, there is some concern about the impact that funding the London Olympics will have on lottery funding; it is almost inevitable that further moneys towards this will come from lottery funding. I understand that you do not know at this stage how much money is likely to be taken out of the lottery funding, but can we have some assurances about the impact on activities in Wales of these decisions? Will the Assembly Government be able to find alternative funding to compensate organisations that may well lose out as a result of this situation?

**Peter Black:** Fel y gwyddoch, mae yna ryw faint o bryder am effaith ariannu Gemau Olympaidd Llundain ar arian loteri; mae bron yn anochel y bydd rhagor o arian at hyn yn dod o arian loteri. Deallaf na wyddoch ar hyn o bryd faint o arian sy'n debygol o gael ei gymryd o arian loteri, ond a allwn gael rhywfaint o sicrwydd ynglŷn ag effaith y penderfyniadau hyn ar weithgareddau yng Nghymru? A fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu dod o hyd i arian arall i ddigolledu sefydliadau a all fod ar eu colled o ganlyniad i'r sefyllfa hon?

3.10 p.m.

**Alun Pugh:** You are absolutely right to say that we do not have the final and definitive figures. We look forward to further ministerial statements from colleagues in the Department for Culture, Media and Sport in

**Alun Pugh:** Yr ydych yn hollol gywir i ddweud nad yw'r ffigurau terfynol gennym. Edrychwn ymlaen at gyhoeddiadau gweinidogol pellach gan gydweithwyr yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a

the UK Parliament. The Olympic Games are an important and valuable sporting and business opportunity for the United Kingdom, and we welcome the support of the Liberal Democrats for London's original application for the 2012 games. It is my job as the Minister for Culture, Welsh Language and Sport to maximise Wales's sporting and cultural benefit from the Olympics—it is great to see Cardiff as a full Olympic venue in its own right, and it is great to see a cultural Olympiad coming to Wales—while, at the same, minimising the impact of lottery funding switches on the nation.

**David Lloyd:** Can you guarantee that charities and sports clubs in Wales will not be affected by Whitehall mismanagement of the London Olympic budget?

**Alun Pugh:** When the original package was put together, part of the cost of the Olympics was to be met by London council tax payers, for which they pay a special precept—that is not universally welcome in London, of course. The cost, therefore, is paid in part by precepts on London council tax payers and in part by subventions from the national lottery. It is inevitable that there will be an impact on the share of lottery money coming to Wales, and it is my job to minimise that while also maximising the real benefits. Welsh athletes are absolutely delighted that the Olympics are coming to London; would it not be great to see a Welsh athlete win a gold medal in 2012?

**Lisa Francis:** In terms of the young people's fund in Wales, do you agree that we need to protect worthwhile projects that offer respite to young carers, encourage them to develop their confidence and skills and allow them to share experience and coping strategies, like the Make It Happen strand of the young people's fund? What will your Government do to ensure that those projects are protected and to enhance partnership working between those projects and local authorities?

**Alun Pugh:** Lottery funding provides many additional funding opportunities, although it does not provide core funding, of course. The

Chwaraeon yn Senedd y DU. Mae'r Gemau Olympaidd yn gyfle pwysig a gwerthfawr i'r Deyrnas Unedig o ran chwaraeon a busnes, a chroesawn gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol i gais gwreiddiol Llundain ar gyfer gemau 2012. Fy swydd i fel y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yw manteisio i'r eithaf ar y buddiannau o ran chwaraeon a diwylliant i Gymru yn sgil y Gemau Olympaidd-mae'n wych gweld Caerdydd fel lleoliad Olympaidd llawn ynddi'i hun, ac mae'n wych gweld Olympiad diwylliannol yn dod i Gymru-ac ar un pryd leihau effaith trosglwyddo arian loteri ar y genedl.

**David Lloyd:** A allwch warantu na fydd camreoli cyllideb Gemau Olympaidd Llundain gan Whitehall yn effeithio ar elusennau a chlybiau chwaraeon yng Nghymru?

**Alun Pugh:** Pan luniwyd y pecyn gwreiddiol, y bwriad oedd y byddai pobl sy'n talu'r dreth gyngor yn Llundain yn talu rhan o gost y Gemau Olympaidd, ac y maent yn talu praesept arbennig tuag ati—nid yw hyn wedi'i groesawu gan bawb yn Llundain, wrth gwrs. Felly, telir y gost yn rhannol gan braeseptau ar bobl sy'n talu'r dreth gyngor yn Llundain, ac yn rhannol gan gymorthdaliadau gan y loteri genedlaethol. Mae'n anochel y bydd hyn yn effeithio ar gyfran yr arian loteri sy'n dod i Gymru, a'm swydd i yw lleihau hynny, gan fanteisio i'r eithaf ar yr un pryd ar y buddiannau gwirioneddol. Mae athletwyr o Gymru yn falch iawn bod y Gemau Olympaidd yn dod i Lundain; oni fyddai'n wych gweld athletwr o Gymru yn ennill medal aur yn 2012?

**Lisa Francis:** O ran y gronfa pobl ifanc yng Nghymru, a gytunwch fod angen inni ddiogelu prosiectau buddiol sy'n cynnig gofal seibiant i ofalwyr ifanc, yn eu hannog i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau, ac yn caniatáu iddynt rannu profiadau a ffyrdd o ymdopi, megis Gwneud Iddo Ddigwydd, sy'n rhan o'r gronfa pobl ifanc? Beth fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau diogelu'r prosiectau hyn a gwella'r gwaith partneriaeth rhwng y prosiectau hyn ac awdurdodau lleol?

**Alun Pugh:** Mae arian loteri yn darparu nifer o gyfleoedd ariannu ychwanegol, er nad yw'n darparu arian craidd, wrth gwrs. Yn sicr, yr

Olympic Games was certainly a project well-worth having.

oedd y Gemau Olympaidd yn brosiect a oedd yn werth ei gael.

### **Llwyddiannau ym Maes Chwaraeon a Hamdden Sport and Recreation Achievements**

**Q10 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's achievements in the field of sport and recreation in Alyn and Deeside? OAQ1162(CWS)

**C10 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes chwaraeon a hamdden yn Alun a Glannau Dyfrdwy? OAQ1162(CWS)

**Alun Pugh:** My 'Climbing Higher: Next Steps' document provides the framework to impact positively on sport, physical activity and recreation opportunities for all people across Wales. Some of the successful schemes currently running in Wales and in your area include the free swimming scheme, Dragon Sport, physical education and school sport and disability sport, together with developing initiatives including having more coaches and the 5x60 plans in secondary schools.

**Alun Pugh:** Mae fy nogfen 'Dringo'n Uwch: y Camau Nesaf' yn darparu'r fframwaith ar gyfer cael effaith gadarnhaol ar chwaraeon, gweithgarwch corfforol a chyfleoedd hamdden i bawb ledled Cymru. Mae rhai o'r cynlluniau llwyddiannus sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd yng Nghymru ac yn eich ardal chi yn cynnwys y cynllun nofio am ddim, Campau'r Ddraig, addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion a chwaraeon i'r anabl, ynghyd â datblygu mentrau sy'n cynnwys cael mwy o hyfforddwyr a'r cynlluniau 5x60 mewn ysgolion uwchradd.

**Carl Sargeant:** In 'Climbing Higher', we specifically state that community facilities should be well maintained and upgraded to attract new participants, and that green exercise on the doorstep should be improved—indeed, our target is that no-one should live more than six minutes away from a natural green space. Local playing fields, such as Willow Park in Hope, are wonderful, life-enhancing resources for my community in Alyn and Deeside, and currently, technical advice note 16 states that local authorities may not dispose of open spaces unless they first publish a notice of their intention to do so for a period of two weeks in order to consider objections. I have put my submission in, Minister, but do you agree that two weeks is simply not long enough for public consultation and that the period should be extended to at least four weeks to allow fuller public consideration? Once disposed of, green spaces are usually gone forever, and every local resident should have the chance to find out about proposals, particularly in the area of Alyn and Deeside.

**Carl Sargeant:** Yn 'Dringo'n Uwch' yr ydym yn dweud yn benodol y dylai cyfleusterau cymunedol gael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u huwchraddio i ddenu cyfranogwyr newydd, ac y dylid gwella ymarfer corff gwyrdd ar garreg y drws—yn wir, ein targed yw na ddylai neb fyw ymhellach na thaith chwe munud o le gwyrdd naturiol. Mae meysydd chwarae lleol, megis Willow Park yn yr Hob, yn adnoddau gwych sy'n gwella bywydau pobl yn fy nghymuned i yn Alun a Glannau Dyfrdwy, ac ar hyn o bryd mae nodyn cyngor technegol 16 yn dweud na all awdurdodau lleol werthu mannau agored oni bai eu bod yn gyntaf yn cyhoeddi hysbysiad o'u bwriad i wneud hynny am gyfnod o bythefnos er mwyn ystyried gwrthwynebiadau. Yr wyf wedi gwneud fy nghyflwyniad, Weinidog, ond a gytunwch nad yw pythefnos yn gyfnod digon hir i ymgynghori â'r cyhoedd, ac y dylid ymestyn y cyfnod i bedair wythnos o leiaf i roi amser i'r cyhoedd ystyried yn llawnach? Pan geir gwared â mannau gwyrdd, maent fel rheol wedi mynd am byth, a dylai pob un o'r trigolion lleol gael y cyfle i gael gwybod am gynigion, yn arbennig yn ardal Alun a Glannau Dyfrdwy.

**Alun Pugh:** Open space for informal recreation and more formal playing fields are extremely valuable resources, and that has been discussed extensively, not least in the Assembly; I know that Carwyn Jones, the Minister for Environment, Planning and Countryside, is currently looking at how these regulations can be changed as the result of a review of the technical advice notes for informing planning policy.

**Alun Pugh:** Mae mannau agored ar gyfer hamdden anffurfiol a meysydd chwarae mwy ffurfiol yn adnoddau gwerthfawr iawn, a thrafodwyd hynny'n helaeth, yn y Cynulliad yn enwedig. Gwn fod Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellir newid y rheoliadau hyn o ganlyniad i adolygiad o'r nodiadau cyngor technegol ar gyfer llywio polisi cynllunio.

### Siaradwyr Cymraeg Welsh Speakers

**C11 Glyn Davies:** Beth yw targed y Gweinidog ar gyfer y canran o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050? OAQ1155 (CWS)

**Q11 Glyn Davies:** What is the Minister's target for the percentage of Welsh speakers in Wales by 2050? OAQ1156(CWS)

**Alun Pugh:** There is no set target for 2050, but I look forward to discussing the result of the 2051 census with you in due course.

**Alun Pugh:** Nid oes targed wedi'i bennu ar gyfer 2050, ond edrychaf ymlaen at drafod canlyniad cyfrifiad 2051 gyda chi maes o law.

**Glyn Davies:** Yr oedd eich ateb i gwestiwn 6 yn ddiddorol; ymddengys eich bod bellach yn cefnogi rhyw fath o ddeddfwriaeth newydd i gryfhau'r iaith. Mae llawer o bobl dros Gymru wedi bod yn galw am hynny, a bydd llawer o ddiddordeb dros Gymru yn yr hyn a ddywedasoed heddiw. Beth yw'r amserlen ar gyfer trafod eich syniadau gyda gwrthbleidiau'r Cynulliad a chyrrff ar draws Cymru, megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chymuned?

**Glyn Davies:** Your answer to question 6 was interesting; it appears as though you now support some form of legislation to strengthen the language. Many people across Wales have been calling for that, and what you have said today will stir up a great deal of interest. What is your timetable for discussing your ideas with the opposition parties in the Assembly and with bodies across Wales, such as the Welsh Language Society and Cymuned?

**Alun Pugh:** I am positive about the future of the Welsh language. We know that minority languages all over the world are under threat, and many of those languages are literally dying on their feet. That is absolutely not the case for the Welsh language. We may argue about the rate of its growth, but it is on a stable foundation for the future.

**Alun Pugh:** Yr wyf yn gadarnhaol ynglŷn â dyfodol yr iaith Gymraeg. Gwyddom fod ieithoedd lleiafrifol ledled y byd dan fygythiad, a bod nifer o'r ieithoedd hynny'n darfod o'r tir, a hynny'n llythrennol. Nid yw hynny'n wir yn achos yr iaith Gymraeg. Gallwn ddadlau ynghylch cyfradd ei thwf, ond mae iddi sail sefydlog ar gyfer y dyfodol.

We will need legislation to merge the Welsh Language Board with the Welsh Assembly Government, and we will need legislation to create the statutory office of dyfarnydd. With the extra powers that the Assembly will have, there will be Orders in Council and Assembly Measures to bring those things about. We have also said that there is still plenty of scope in the existing Welsh language legislation. For example, a couple of years

Bydd arnom angen deddfwriaeth i uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd arnom angen deddfwriaeth i greu swydd statudol y dyfarnydd. Gyda'r pwerau ychwanegol a fydd gan y Cynulliad, bydd Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a Mesurau'r Cynulliad i gyflawni'r pethau hynny. Yr ydym wedi dweud hefyd fod hen ddigon o bwerau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, rai blynyddoedd yn

ago, we extended the scope of language schemes to bring the water companies that supply Wales into the fold, such as Dŵr Cymru, and so on, and they must now also provide their services through the medium of Welsh as a result of their Welsh language schemes. So, the legislative position will change. Where we do not currently have consensus in the Assembly is on the detail of that legislation. There must certainly be further legislative change but I do not accept that we need to have a major tranche of brand-new legislation that places additional statutory obligations across the private sector; I believe that the Conservatives agree with that. I look forward to the review of 'Iaith Pawb', and to wrapping up the legislative issues as a result of the review.

